| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 10 Medi 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2018/19 |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br><br>Swyddog Cyswllt:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Alwyn Rhys Jones, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros dro)<br><br>Emma Edwards<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Pwrpas yr adroddiad:**

Derbyn a gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft terfynol a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Statudol. Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer perfformiad a’r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf o ran darparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Mae’r adroddiad hefyd yn amlinellu’r ffocws ar gyfer gwelliant am y flwyddyn nesaf.

Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr adroddiad terfynol, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.. Mae’r templed ar gyfer yr adroddiad yn cael ei ddylunio gan ein Dylunydd Graffig a’n Swyddog Marchnata Digidol.

**Sesiwn Herio Staff**

Cynhaliwyd Cynhadledd Staff ar y cyd rhwng Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar 12ain Mehefin 2019 er mwyn cyflwyno'r adroddiad drafft a'i negeseuon allweddol. Hon oedd y gynhadledd gyntaf ar y cyd a gynhaliwyd rhwng y gwasanaethau, ac roedd yna bresenoldeb da.

**Amserlen**

Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 8 Gorffennaf 2019 ac mae’r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda’r Pwyllgor Gwaith ar 15 Gorffennaf 2019 ac yna chyda’r Cyngor Llawn ar 10 Medi 2019. Ymhellach, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Argymelliadau**

| |
|---|
| 1.1. Gwahoddir aelodau i roi sylwadau ar gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19.<br><br>1.2. Argymhellir bod yr aelodau'n ystyried:<br><br>a) a yw'r adroddiad yn cyfleu sefyllfa gyfredol y Cyngor o ran y modd y mae'n darparu ei Wasanaethau Cymdeithasol;<br>b) a yw'r adroddiad yn adlewyrchu'n gywir ei flaenoriaethau gwella mewn perthynas â'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd am y flwyddyn nesaf;<br>c) a yw'r adroddiad yn adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor mewn perthynas â'i Wasanaethau Cymdeithasol. |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae angen cael cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2018/19. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 24 Mehefin 2019. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Craffu** | Cafodd yr Adroddiad ei ystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar Ddydd Llun 8 Gorffennaf 2019, a wnaeth y Cadeirydd rhoi sylwadau ar lafar yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Gorffennaf 2019. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2018/19 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

# Ynys Môn

THE ISLE OF
Anglesey

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2018 - 2019

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

@cyngormon

# Cynnwys


Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a Chrynodeb o Berfformiad 1

Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau? 4

**Safon Ansawdd 1 –** Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni 6

**Safon Ansawdd 2 –** Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl 9

**Safon Ansawdd 3 –** Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed 11

**Safon Ansawdd 4 –** Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas 13

**Safon Ansawdd 5 –** Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel ac i gynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach 16

**Safon Ansawdd 6 –** Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell llesiant economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u anghenion. 18

Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol 21

Ein Hadnoddau Ariannol a Sut ydym yn Cynllunio at y Dyfodol 24

Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd 26





Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'n hunan-asesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â thynnu sylw at yr heriau y bydd angen rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar ffurf a chynnwys yr adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo ein taith welliant.



# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a Chrynodeb o Berfformiad

Rwy'n falch o gyflwyno'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar ddechrau'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch i Dr Caroline Turner, ein cyn-gyfarwyddwr am ei chefnogaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunwn y gorau iddi yn ei rôl newydd ym Mhowys.

Dros y deuddeg mis diwethaf, rwy'n blês gyda'r cynnydd rydym wedi'i wneud gyda'n gilydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion. Ar ôl y gwaith da yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, cafwyd arolwg gan AGC ym mis Hydref 2018. Mae hyn yn dweud wrthym ein bod yn gwneud cynnydd da ond mae'n rhaid i ni barhau i gryfhau ein gwasanaethau a'n harferion. Rydym yn croesawu canfyddiadau'r arolwg hwn.

Dros y 12 mis diwethaf bu nifer o ddatblygiadau yr ydym yn falch iawn ohonynt yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Er enghraifft, mae ein gwaith nawr yn seiliedig ar y Fframwaith Gwella Ansawdd Ymarfer a ddyluniwyd i lywodraethu a thywys ein gweithlu; mae gan Teulu Môn Strategaeth Ymgysylltu glir, ac mae'r Gwasanaeth Camu Ymlaen yn anelu i gryfhau teuluoedd nad ydynt angen cefnogaeth statudol bellach, ond sydd dal angen arweiniad.

Rydym wedi cymryd camau pendant i wella'r Cynnig a wneir i ofalwyr maeth a gyflogir gan y Cyngor, a gobeithiwn y bydd hyn yn cynyddu ein gallu i recriwtio gofalwyr maeth ac y bydd hefyd yn eu helpu hwy i gynnig y gefnogaeth orau i blant sy'n cael eu maethu.

Yn yr un modd, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gallu gwneud cynnydd gyda'n nod o gefnogi Oedolion i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae agoriad Hafan Cefni, Uned Gofal Ychwanegol, yn darparu llety i bobl Môn sy'n galluogi iddynt aros yn annibynnol gan dderbyn gofal a chymorth hefyd petaent ei angen. Diolchwn i'n partneriaid yn Pennaf am eu gwaith caled wrth gyflawni'r cyfleuster rhagorol hwn.

Mewn partneriaeth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym hefyd wedi llwyddo i gomisiynu darpariaeth gofal cartref newydd ar gyfer ein preswylwyr gan ddarparwyr sy'n gweithio yn yr ardal. O hyn ymlaen, gall unigolion sydd angen gofal, gan gynnwys y rheini sydd angen cefnogaeth i gwrdd â'u hanghenion gofal iechyd parhaus, ddisgwyl derbyn y gofal hwnnw o fewn 48 awr.

Mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl wedi cryfhau eu ffocws ar helpu unigolion i wella eu llesiant trwy sesiynau ffitrwydd a iechyd mewn grŵp sy'n golygu eu bod yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon a hamdden ar eu llwybr tuag at wellhad.

Mae yna dal heriau pellach i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd yn 2019/20 ac ystyriwn ein bod mewn sefyllfa dda i gwrdd â'r heriau hynny.

Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi diogelwch a llesiant plant ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu 3 o Gartrefi Grŵp Bach ar Ynys Môn – Cartrefi Clyd Môn yn 2019/20. Bydd hyn yn fodd i ni gefnogi plant a chanddynt anghenion uchel o fewn eu hardal leol ac nid mewn lleoliadau costus tu allan i'r sir. Rydym hefyd dal yn ymroddedig i barhau i wella'r Gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn bwriadu canolbwyntio ar fodel o gefnogaeth ddydd i unigolion sydd ag Anableddau Dysgu mewn ffordd sy'n cwrdd â'u nodau ac yn eu cefnogi i fynd yn eu blaenau. Mewn partneriaeth â'n partneriaid iechyd a'n partneriaid yn y trydydd sector, rydym hefyd yn anelu i sefydlu Timau Adnodd Cymunedol mewn 3 ardal yn Ynys Môn i ddarparu'r gefnogaeth orau i bobl allu aros yn annibynnol, a bydd y gefnogaeth honno yn cael ei darparu gan dimau integredig.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl staff a staff y darparwyr rydym yn eu comisiynu am eu gwaith caled yn 2018/19. Gall gyrfa mewn gofal cymdeithasol fod yn heriol yn aml iawn, a diolchwn iddynt am eu hymroddiad parhaus.



**Alwyn Rhys Jones**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion



**Fôn Roberts**
Dirprwy Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd





# Sut mae Pobl yn siapio ein Gwasanaethau?

Y Rhaglen Llesiant yw ffocws ein holl waith – rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn adrodd yn erbyn y pedair egwyddor yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sef llesiant, pobl (llais a rheolaeth), partneriaeth, ac integreiddio ac ataliaeth.

Er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebwn rydym yn blês gyda'r cynnydd yn 2018-19 mewn sawl maes. Rydym wedi cymryd y cyfle i wneud pethau mewn ffordd wahanol, gan ystyried dulliau eraill o weithio gyda'n partneriaid a modelau gofal amgen. Mae enghreifftiau o hyn i'w gweld trwy'r adroddiad hwn.

Ein blaenoriaeth i oedolion yw hyrwyddo annibyniaeth ac atal anghenion rhag gwaethygu. Ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y flaenoriaeth yw sicrhau bod ein plant mewn gofal yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd gorau posib.

Rydym yn fodlon iawn gyda'r canfyddiadau o'r arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ym mis Hydref 2018, a oedd yn adrodd am welliannau sylweddol mewn meysydd allweddol, arweinyddiaeth a llywodraethiant gref, cydweithio da a diwylliant agored newydd o fewn y gwasanaeth. Mae AGC hefyd yn tynnu sylw at 'angerdd ac ymroddiad ar bob lefel' i ddarparu gwasanaethau rhagorol i blant. Cawsom dawelwch meddwl gan y sylwadau hyn, ond rydym yn cydnabod hefyd fod yna dal feysydd i'w gwella

Caiff uwch swyddogion eu disgrifio fel 'gweladwy, ar gael ac yn gyrru gwelliannau', tra bod partneriaid ar y bwrdd diogelu rhanbarthol, Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd yn bositif ynghylch y newidiadau maent wedi eu gweld.

> Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn, Fôn Roberts, *"Mae'r gwasanaeth wedi dod yn bell mewn amser cymharol fyr. Rydym dal yn wynebu heriau o ran y cynnydd yn nifer y plant a ddaw i ofal ar Ynys Môn, sy'n golygu cynnydd yn y llwyth gwaith i'r timau. Fodd bynnag, rydym nawr mewn sefyllfa llawer gwell i gwrdd â'r heriau hyn."*

> Roedd Arweinydd y Cyngor a'r deilydd portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi, yn croesawu adroddiad AGC. Ychwanegodd, *"Rydym wedi ymgymryd â rhaglen wella sylweddol dros y 18 mis diwethaf ac mae gwaith caled ein staff ymroddedig yn dangos canlyniadau positif."*

**Yr Iaith Gymraeg –** Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg ein staff am yr angen i roi cynnig rhagweithiol o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â **'Mwy na Geiriau'** a Safonau'r Iaith Gymraeg.
Er enghraifft, yn ystod 2018/19, rhannwyd crynodeb o bwyntiau allweddol mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg gyda staff yr Uned Ddarparu; cylchredwyd geirfaoedd dwyieithog o dermau gwaith cymdeithasol i staff er mwyn eu cefnogi gyda defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac mae codi ymwybyddiaeth o Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi bod yn rhan o broses gynefino yr adran ar gyfer staff newydd. Mae 89% o staff ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 79% o staff ein Gwasanaethau Oedolion yn siaradwyr Cymraeg. *Mae Strategaeth Gweithlu y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cydnabod yr ymrwymiad i sicrhau bod y Gwasanaeth ar gael yn Gymraeg;* mae'n ofyniad allweddol yn ein proses recriwtio, a chaiff ei fonitro'n gyson.

>>

>>

Mae gan y Cyngor gytundeb partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor ar gyfer y cwrs MA Gwaith Cymdeithasol i gymryd myfyrwyr dwyieithog ac i gynnig cyfleoedd dysgu iddynt yn y gweithlu. Mae hyn yn helpu'r broses o recriwtio a chadw staff dwyieithog o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'n ddisgwyliad bod rheolwyr yn ystyried unrhyw bwyntiau dysgu o gwynion a dderbyniwyd, ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i roi sylw i'r pwyntiau hyn, pan fyddant yn ymateb i gwynion o dan Gam1 y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Os yw ymchwiliad Cam 2 yn digwydd, bydd y Gwasanaeth yn creu Cynllun Gweithredu yn dilyn yr ymchwiliad os yw'r ymchwilydd annibynnol yn gwneud argymhellion yn yr adroddiad Cam 2. Mae pwyntiau dysgu o gwynion a dderbynnir, ynghyd â chrynodebau o ganmoliaethau a dderbynnir, yn cael eu hadrodd a'u rhannu gyda'r rheolwyr yn chwarterol. Yn 2018/19, cofnodwyd 212 o sylwadau positif ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, a chofnodwyd 59 o sylwadau negyddol, 44 o gwynion Cam 1 ac 8 o gwynion Cam 2 yn ystod y flwyddyn.




# Safon Ansawdd 1

**Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni**

## OEDOLION

Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fe wnaethom wahodd cyflenwyr i dendro am fodel newydd o Ofal a Chymorth Cartref ar draws yr ynys – roedd hyn yn cynnwys pecynnau Gofal Iechyd Parhaus (CHC) sylfaenol a gofal o fewn y ddau gynllun Tai Gofal Ychwanegol (Penucheldre, Caergybi a Hafan Cefni, Llangefni).

Mae'r model newydd yn "rhannu" yr ynys yn dair ardal gyda dim ond un darparwr yn llwyddiannus ym mhob ardal. Mae'r contract hefyd yn cynnwys cynlluniau gofal ychwanegol mewn dwy o'r tair ardal (gyda darpariaeth i ddatblygu trydydd cynllun o'r fath cyn diwedd y contract). Bydd **Carelink** yn darparu gofal cartref yn ngogledd yr ynys, bydd **Abacare** yn gyfrifol am dde-orllewin yr ynys a bydd **Consortiwm Plas Garnedd,** sy'n cynnwys Plas Garnedd, Crossroads a Gofal Seibiant, yn gyfrifol am becynnau gofal cartref yn ne-ddwyrain Ynys Môn.




O dan ein model hanesyddol, roedd hi'n aml yn anodd sicrhau cynnig cyson o gefnogaeth ym mhob ardal i bobl, a oedd yn golygu bod unigolion a gâi eu cefnogi yn gorfod aros yn yr ysbyty yn hirach nag oedd angen, a'u bod yn cael gwasanaethau ar adegau amhriodol. Golygai hyn fod gennym wasanaeth anghyflawn, ac un nad oedd yn cynnig dewis a rheolaeth i unigolion, ac a gâi ei gomisiynu ar sail pecynnau wedi'u hamseru yn hytrach na deilliannau i unigolion. Credwn fod y model newydd wedi gwella'r sefyllfa hon yn fawr.

> *"Mae'r gwasanaethau gofal cartref ... yn darparu gofal mwy hygyrch, yn gyson ac yn annog ein defnyddwyr gwasanaeth i ddod yn unigolion mwy annibynnol o fewn eu cymunedau"*
> - Arweinydd Cyngor Ynys Môn a deilydd portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi

**Timau Adnodd Cymunedol (TAC) –** Mae ein nod o ddatblygu timau o staff gofal iechyd a chymdeithasol sy'n cefnogi pobl o fewn eu hardaloedd lleol eu hunain wedi symud ymlaen yn 2018/19. Mae grŵp llywio yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i yrru hyn yn ei flaen, a chafwyd sesiynau ymgysylltu gyda staff amlddisgyblaethol yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y TAC. Bydd hyn yn cyfrannu at fwy o gydweithio ac yn cychwyn ar ffyrdd o weithio a rennir. Mae llety ar gyfer staff wedi'i gytuno ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r awyrgylch mewn safleoedd dynodedig.

**Hyfforddiant Canlyniadau i Staff**

Mae staff ar draws y Gwasanaethau Oedolion wedi mynychu hyfforddiant canlyniadau sy'n adeiladu ar y sesiynau hyfforddiant sgyrsiau cydweithredol a ddarparwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod 2018/19.
Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi comisiynu hyfforddiant canlyniadau integredig rhwng darparwyr gofal cartref ac ymarferwyr rheng-flaen er mwyn hwyluso dealltwriaeth gyffredin o'r maes a chytuno ar ddogfennaeth gyffredin.

## PLANT A THEULUOEDD

**Rydym ni'n ymwybodol o ACE** – Mae wedi'i brofi bod effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn andwyol i blant a gall eu heffeithio yn nes ymlaen yn eu bywydau. Fe wnaeth gwaith ymchwil a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) ganfod bod 47% o oedolion sy'n byw yng Nghymru (18-69 mlwydd oed) wedi profi mwy nag un Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).

Mae unigolion sydd wedi profi pedwar neu fwy o brofiadau o'r fath yn wynebu risg llawer uwch o fynd i'r carchar, ac o fynd yn gaeth i gyffuriau.

Mae'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd sydd wedi'i sefydlu'n lleol yn adeiladu ar brosiectau sy'n bodoli yng Nghymru fel y dull peilot yng Ngogledd Cymru o ymdrin â theuluoedd cymhleth. Mae'r Rhaglen wedi sefydlu dull uchelgeisiol o ddatblygu'r gweithlu, ar draws y system gyfan, er mwyn ymateb i fregusrwydd trwy ganolbwyntio ar brofiadau ACE.

Credwn y bydd y rhaglen hon yn helpu i leihau'r galw ar blismona a phartneriaid allweddol, ac yn gwella canlyniadau i bobl sy'n byw ym Môn trwy ganolbwyntio ar drawsnewid y dull o blismona bregusrwydd i ddull aml-asiantaeth sy'n wybodus ynghylch ACE, sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac yn gallu atal gwraidd y broblem fel nad yw materion yn gwaethygu. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth cyflawn sy'n gallu ymateb yn well i anghenion unigolion a chymunedau lleol ar Ynys Môn, yn enwedig y bobl fwyaf bregus.

**Pwrpas** – Prif ddiben y grŵp cyflawni Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yw sicrhau darpariaeth leol, effeithiol aml-asiantaethol yn erbyn 4 amcan strategol y rhaglen.

**Amcan 1** – Gweithlu medrus a hyderus i ymateb yn fwy effeithiol i fregusrwydd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ACE, a hynny mewn gwaith plismona amser cyflym ac araf

**Amcan 2** – Capasiti a medrusrwydd y sefydliad sy'n cwrdd yn rhagweithiol â galwadau sy'n newid

**Amcan 3** – Un 'drws ffrynt' integredig 24/7 ar gyfer bregusrwydd sy'n cyfeirio, yn cefnogi ac yn diogelu gwasanaethau iechyd a llesiant 'golau glas'

**Amcan 4** – Ymateb system gyfan i fregusrwydd trwy weithredu dulliau sy'n seiliedig ar ACE ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol

**Gwella Ymarfer** Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cwblhau ymarfer mapio proses trwy ein holl dimau, gan alinio ymarfer i'n system gofnodi electronig – sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Mae'r gwaith hwn yn sicrhau asesiadau mwy llyfn, ymweliadau statudol amserol, cofnodi gwell a gwell cefnogaeth i blant.

Mae **Teulu Môn** (ein Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) wedi datblygu ei **strategaeth ymgysylltu** ymhellach ac wedi gwreiddio cyfeiriadau'r Gwasanaeth Arbenigol Plant i'r broses Teulu Môn – sy'n galluogi ymateb cyflym i Deulu Môn/Tîm o Amgylch y Teulu, Gwasanaeth Arbenigol Plant neu gyfeirio i wasanaeth anstatudol perthnasol.



## BLAENORIAETHAU 2019/20

- TAC – Bydd pob un o'r 3 Tîm Adnodd Cymunedol yn weithredol yn y safleoedd dynodedig a byddant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth integredig gan ymgorffori darparwyr gofal cartref a trydydd sector.

- Eiriolaeth – Bydd dogfennau asesu yn cael eu datblygu i adlewyrchu'r angen i adnabod yr angen am eiriolaeth yn ystod pob cam o ymyrraeth a sicrhau ein bod yn defnyddio gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru yn effeithiol pan nad oes unrhyw drefniadau eiriolaeth anffurfiol eraill mewn lle.

- Byddwn yn ail-dendro'r lleoliadau Byw â Chymorth gyda'r bwriad o gynyddu cyfleoedd am annibyniaeth i'r eithaf ar gyfer y bobl sy'n byw yno.

- Byddwn yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid i fabwysiadu Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu (AD) newydd.



### Mesur Safon Ansawdd 1:

- **97.5%** o bobl yn adrodd eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch (Oedolion, Gofalwyr a Phlant)
- **95.1%** o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ymateb yn bositif i'r cwestiwn "Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi / oeddech chi gyda'r gwasanaethau gofal a chymorth y gwnaethoch eu derbyn?" (Oedolion, Gofalwyr, Plant, Rhieni)
- **96%** o oedolion sy'n derbyn pecyn cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth maent wedi ei dderbyn
- **96%** o oedolion sy'n derbyn pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn adrodd eu bod yn fodlon â sut mae'r gwasanaethau maent wedi'u derbyn yn cwrdd â'u hanghenion

# Safon Ansawdd 2

**Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl**

## OEDOLION

Mae **Cydlynu Asedau Lleol** yn fodel newydd o weithio gyda chymunedau ar Ynys Môn. Mae Cydlynwyr Asedau Lleol yn gweithio gydag unigolion a grwpiau i ddatblygu a defnyddio rhwydweithiau lleol i hyrwyddo datrysiadau lleol i anghenion lleol.

- Datblygu model rhagnodi cymdeithasol i gryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, trydydd sector a'r ALI
- Lleihau unigedd ac arwahanrwydd yn ein cymunedau
- Hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach a lleihau anghydraddoldebau iechyd

Mae gennym nawr 6 o Gydlynwyr Asedau Lleol (CALI) yn gweithio ledled yr ynys. Mae dau yn cael eu hariannu trwy'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a chafodd 4 arall eu cyflogi yn 2018/19 trwy Gytundeb Partneriaeth rhwng yr ALI, BIPBC (Clwstwr Meddygfeydd Teulu) a'r trydydd sector. Mae CALI hefyd yn gweithio gyda chymunedau i ennill statws dementia-gyfeillgar a sefydlu hybiau lleol. O ganlyniad i hybiau mae tystiolaeth fod gan bobl well dealltwriaeth ynghylch sut i dderbyn cyngor a chymorth am weithgareddau er mwyn atal neu leihau unigedd ac i hyrwyddo llesiant.

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn, cyflawnwyd y canlyniadau hyn:
Nifer y bobl a gefnogwyd – 247
% o bobl sy'n teimlo'n llai unig – 88%
% o bobl sy'n adrodd gwahaniaeth positif – 91%

Bydd teclyn mesur newydd (Elemental) yn cael ei ddefnyddio i dracio canlyniadau llesiant pobl.

Blaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yw sefydlu Hybiau Cymunedol ar draws yr ynys. Mae hybiau cymunedol yn cynnig gweithgareddau a gwasanaethau cefnogol gan gynnwys cyngor a gwybodaeth, ymgyfeillio a chludiant. Mae nifer o wahanol hybiau cymunedol ar gael yn amrywio o hybiau mewn cyfleusterau Gofal Ychwanegol, canolfannau Heneiddio'n Dda a chynlluniau tai gwarchod, ac yn aml iawn maent yn defnyddio cyfleusterau sy'n bodoli yn y gymuned megis neuaddau pentref, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Cafodd y model hyb cymunedol yn Hafan Cefni ei lansio yn 2018 ac mae'n cynnig rhaglen o weithgareddau mewn lleoliad Gofal Ychwanegol ar gyfer y tenantiaid a'r gymuned leol ehangach. Mae enghreifftiau'n cynnwys dosbarthiadau codymau, bwyta'n iach, podiatreg, dosbarthiadau ymarfer corff, cyngor a gwybodaeth, cefnogaeth yn gysylltiedig â thai.

Mae Cynghrair Hybiau Cymunedol wedi'i sefydlu i weithredu fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chydweithio posib, ac i adnabod unrhyw faterion positif neu negyddol wrth gefnogi hybiau cymunedol i lwyddo ar yr ynys.





## PLANT A THEULUOEDD

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sefydlu Swydd Perthnasau Iach, o dan Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, a fydd yn hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o gam-fanteisio ar blant ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. Roedd hyn yn cynnwys diwrnod ymwybyddiaeth o Gam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CSE) ar 18 Mawrth 2019 – gan ymweld â phlant a phobl ifanc mewn gwahanol ysgolion a chlybiau ieuenctid ar draws yr ynys yn ogystal ag ymweld â chymunedau lleol. Bydd y gwaith hwn yn mynd yn ei flaen ar hyd y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae **Protocol "Ar Goll"** rhanbarthol yn cael ei ddatblygu er mwyn cael dealltwriaeth gyffredin ymysg y chwe Awdurdod Lleol ac asiantaethau partner hefyd.

Yn ystod gwanwyn a haf 2018 fe wnaeth plant a phobl ifanc drwy'r wlad gymryd y cyfle i ddweud eu dweud ar chwaraeon a'u lles. Fe wnaeth dros 1,000 o ysgolion gymryd rhan yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol gan Chwaraeon Cymru, yr arolwg mwyaf ei faint a'r mwyaf adlewyrchol o'i fath yng Nghymru, ac o bosib y byd.

Ar Ynys Môn mae 56% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf dair gwaith yr wythnos, yr ail ganran uchaf yng Nghymru o gymharu â 50% yn 2015 a'r cyfartaledd cenedlaethol presennol o 48%. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod:

- 67% o ddisgyblion yn aelodau o glwb chwaraeon
- 77% o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb tu allan i'r ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf
- 86% o ddisgyblion yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgaredd newydd.

> *"Mae Ynys Môn yn gwneud yn arbennig o dda pan ddaw at ddarpariaeth chwaraeon i blant a phobl ifanc. Mae dod yn ail trwy Gymru gyfan yn brawf o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud ar yr Ynys, gan ysgolion, hyfforddwyr gwirfoddol mewn clybiau chwaraeon di-ri a thîm datblygu chwaraeon y Cyngor ei hun."*
> Y Cynghorydd Carwyn Jones, deilydd portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd.

## BLAENORIAETHAU 2019-20

- **Yr agenda gordewdra mewn plant –** rydym eisiau datblygu dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod ar Ynys Môn. Byddwn yn anelu at leihau nifer y plant sy'n cael eu hadnabod fel plant gordew yn unol â'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Ein prif ffocws fydd datblygu dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant gordew neu blant nad yw eu pwysau'n iach, gan weithio tuag at agenda Cymru Iachach (gyhoeddwyd ym Mehefin 2018 - yw cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru).

**Mesur Safon Ansawdd 2:**

- Roedd **518** o oedolion angen gofal preswyl ar ryw bwynt yn ystod y flwyddyn (o gymharu â 573 y llynedd)
- Roedd **295** o oedolion mewn gofal preswyl ar 31 Mawrth 2018 (o gymharu â 366 yn 2018)

# Safon Ansawdd 3

**Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed**

## TREFNIADAU DIOGELU CORFFORAETHOL

Mae "diogelu" yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor. Mae'r awdurdod lleol wedi:

### Prif gyflawniadau

- Darparu hyfforddiant i staff yn unol â'u rôl a chyfrifoldebau gyda ffocws ar Drais Domestig a Chaethwasiaeth Fodern.
- Parhau i sicrhau bod goblygiadau diogelu sy'n deillio o ddatblygiadau mawr yn cael eu hadnabod, a chamau lliniaru'n cael eu datblygu.
- Rydym yn parhau i gyfrannu'n sylweddol fel bartner actif ar Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Aml-asiantaeth (MAPPA) a threfniadau Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC).

## Y GWASANAETHAU OEDOLION

### Prif gyflawniadau

- Wedi datblygu Polisi Diogelu interim sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf, tra'n aros i'r gweithdrefnau Cymru Gyfan gael eu datblygu.
- Wedi cynnal gwerthusiadau aml-asiantaeth o ymarfer diogelu.
- Wedi datblygu Tîm DoLS i reoli'r galw cynyddol am asesiadau Mesurau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a gwell prosesau ar gyfer asesu'n gyflym ac yn effeithiol, gan felly leihau'r gwaith sy'n cronni. Mae'r tîm hefyd yn cynghori timau gwaith cymdeithasol eraill a darparwyr, ac yn ystyried adroddiadau am drefniadau amddifadu o ryddid anawdurdodedig.
- Adolygu sut caiff eiriolaeth ei ddarparu i wneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf – gan sicrhau y caiff llais y person ei glywed ar gamau allweddol ar hyd eu taith gofal cymdeithasol.
- Wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Gwella Ansawdd – gan ein helpu ni i sicrhau bod ymarfer yn ddiogel ac yn cwrdd â'r safonau gofynnol.
- Wedi lansio Protocol Hunan-Esgeulustod Gogledd Cymru yn lleol.
- Wedi monitro'n agos y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu o ran ansawdd y gofal y gwnaethant ei ddarparu trwy ofal cartref, byw â chymorth â chartrefi gofal tymor hir

## GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

### Prif gyflawniadau

- Mae ein harolygon mewnol ac arolygon allanol o ymarfer yn dangos bod ymarfer diogelu wedi gwella.
- Rydym wedi parhau i weithredu'r Fframwaith Gwella Ansawdd Ymarfer: sy'n darparu cyfres o brosesau sicrwydd systematig, wedi'u cynllunio a ddefnyddir i siapio dysg a gwelliant. Mae hyn yn ein helpu i adnabod ym mhle mae angen gwelliannau pellach a beth yw'r ffordd orau o gyflawni'r rhain.
- Wedi datblygu a gweithredu ymagwedd newydd tuag at amddiffyn plant – Cryfder ar y Cyd. Y nod yw sicrhau bod Cynlluniau Amddiffyn Plant yn cael eu cyd-gynhyrchu a'u bod yn canolbwyntio ar y newidiadau pwysig sydd eu hangen i gadw plentyn yn ddiogel ac yn tystiolaethu'r ymyraethau i gyflawni'r newidiadau hynny.
- Gwella sgiliau a gwybodaeth mewn perthynas â chynnal ymchwiliadau A47 gan sicrhau bod y Model Risg Gwynedd / Thornton yn cyfrannu at y dadansoddiad p'un a yw'r plentyn wedi / yn debygol o ddioddef niwed sylweddol.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019/20

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein polisi ac ymarfer Diogelu Oedolion i adlewyrchu'r newid mewn dyletswydd gyfreithiol o dan y Ddeddf, ac i ymateb i bolisi a gweithdrefnau cenedlaethol newydd gan Lywodraeth Cymru.
- Gwella Prosesau Adolygu Statudol – canolbwyntio ar well paratoi, craffu cadarn ar ofal a chefnogaeth i blant, a rhoi'r plentyn wrth galon y broses adolygu.
- Parhau â lansiad a chyflwyniad Cryfder ar y Cyd.



### Mesur Safon Ansawdd 3:

- Roedd **90.48%** o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion wedi ymateb yn bositif i'r cwestiwn, "Ydy cefnogaeth a sefydlwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eich helpu i deimlo'n saff ac yn ddiogel yn eich cartref?"
- **96%** o gynlluniau gofal a chefnogaeth (neu gynlluniau cefnogaeth i ofalwyr ifanc) wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, o fewn amserlenni a gytunwyd, o gymharu ag **88%** y flwyddyn gynt.
- Mae **79%** o oedolion a gofalwyr yn yr Arolwg Dinasyddion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.
- Mae **81%** o blant yn yr Arolwg Dinasyddion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.
- Roedd ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf mewn meysydd diogelu fel a ganlyn:

- Cafodd **91%** o ymholiadau amddiffyn oedolion eu cwblhau o fewn 7 diwrnod.
- Cafodd **88%** o Gynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol eu cynnal o fewn yr amserlenni statudol.
- Cafodd **94%** o'r holl Adolygiadau Amddiffyn Plant eu cynnal ar amser.
- Mae gan **100%** o'r plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant Weithiwr Cymdeithasol wedi'i ddynodi ar eu cyfer.
- Mae gan **100%** o Blant sy'n Derbyn Gofal Weithiwr Cymdeithasol wedi'i ddynodi ar eu cyfer.
- **2% =** Ail-gofrestriadau o blant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol.
- **241 diwrnod =** Yr amser cyfartalog i'r holl blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn.

# Safon Ansawdd 4

**Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas**

**CEFNOGAETH I WEITHIO**
**(OEDOLION A PHLANT A THEULUOEDD)**

Mae'r Cynllun **OPUS cenedlaethol, a'r cynlluniau Trac ac Adtrac** yn cael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Mae OPUS yn cefnogi unigolion dros 25 oed sy'n economaidd anweithredol neu sy'n ddi-waith ers amser hir, tra bod Trac (a gaiff ei reoli gan Wasanaeth Addysg a Dysgu Ynys Môn) yn cefnogi pobl ifanc 11-16 mlwydd oed i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu llawn botensial. Mae Adtrac yn brosiect rhanbarthol a ariennir gan yr UE, sy'n cael ei weithredu gan Awdurdodau Lleol ar draws Gogledd Cymru er mwyn darparu gwasanaeth mentora pwrpasol i helpu pobl ifanc (NEET) rhwng 16 a 24 mlwydd oed i fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn ddibynnol ar eu galluoedd a'u hoedran, mae'r unigolion yn cael cynnig amrywiaeth o gefnogaeth gan gynnwys hyfforddiant, cefnogaeth therapiwtig a mentora.

Mae OPUS ar Ynys Môn wedi bod yn darparu cefnogaeth ac ymyraethau sydd wedi rhoi'r sgiliau priodol i'r cyfranogwyr allu sicrhau cyflogaeth addas. Mae Trac ar Ynys Môn wedi cynnig y cyfle i ddysgwyr fynychu cyrsiau byr a phrofiad gwaith wedi'i deilwra sy'n eu helpu i ddatblygu hyder, gwydnwch a hunan-barch. Mae'r prosiect Adtrac yn seiliedig ar ymagwedd holistaidd, aml-asiantaeth ar gyfer datblygu cynllun personol sy'n helpu i gael gwared ar rwystrau, yn hyrwyddo llesiant a hyder, ac yn datblygu sgiliau a chyflogadwyedd pobl ifanc fregus, gan gynnwys y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl isel i gymedrol ac anghenion cymhleth.

O'r 101 o unigolion a gofrestrwyd ar gyfer OPUS, mae nifer wedi ennill cymhwyster, wedi gwirfoddoli, wedi ennill cyflogaeth neu gyfuniad o'r cyflawniadau a nodwyd uchod.

- mae 79 wedi ennill cymhwyster
- mae 42 wedi gwirfoddoli
- mae 10 wedi sicrhau cyflogaeth

O'r unigolion hynny a gawsai eu cefnogi gan TRAC:

- mae 108 wedi parhau mewn addysg llawn amser
- 96 mewn risg is o ddod yn NEET (nid mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant)
- 48 yn symud ymlaen i gwrs lefel uwch llawn-amser mewn coleg.

Ar ddiwedd Ionawr 2019, roedd cyfanswm o 75 o bobl ifanc o bob cwr o Ynys Môn wedi eu cofrestru ar y prosiect ADTRAC. Mae 9 o bobl ifanc wedi cael eu cyfeirio gan Wasanaethau Cymdeithasol CSYM, gyda 7 wedi cofrestru ac yn ymwneud yn llawn â'r prosiect a 2 gyfeiriad pellach ar y gweill.



## OEDOLION

Ar ddechrau mis Ebrill 2018 fe wnaeth **Gwasanaeth Cefnogaeth y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHSST)** ymchwilio i'r buddion ar gyfer ein cleientiaid o'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Yn ystod y gwaith ymchwil fe wnaethom ganfod bod y ddarpariaeth cyfranogiad grŵp gan Wasanaethau Cefnogaeth Iechyd Meddwl Cymunedol Sir y Fflint (y gwasanaeth yn Sir y Fflint sy'n cyfateb i'n gwasanaeth ni) yn ddatblygedig iawn, ac dysgom lawer o nifer o ymweliadau â'r sir i weld drosom ein hunain sut roeddent yn rheoli cyfleoedd i gleientiaid gymryd rhan mewn grŵp ynghyd â'r buddion a gawsant o gymryd rhan mewn grŵp.

Ar ôl llwyddiant cynnar gyda chlwb rhedeg a sefydlwyd ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a chlwb cerdded wedi hynny, fe wnaethom benderfynu sefydlu rhaglen o weithgareddau grŵp ar gyfer ein cleientiaid. Roedd rhwng 12 ac 18 o bobl yn mynychu'r clwb rhedeg bob wythnos yn rheolaidd

Isod mae sampl o ddatganiadau adborth gan gleientiaid.

Client A    Client B    Client C

Trwy ddatblygu'r rhaglen hon chwe mis yn ôl fe wnaethom ehangu ein cynnig i unigolion, gan felly gynnig y cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn ogystal â chynnig cymorth un i un. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu cyfleoedd mewn dwy ganolfan hamdden ar gyfer chwarae badminton, bowlio, grwpiau rhiant a phlentyn, celf a chrefft ynghyd â chyfleoedd dysgu mewn cydweithrediad â Choleg Menai a Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Cymru ymysg eraill.

Rydym hefyd wedi sefydlu tri chlwb llesiant ar draws yr ynys ac rydym wedi ymgeisio am grant i ganiatáu rhagor o weithgareddau awyr agored, gan gynnwys dringo a chaiacio.

Mae cyfranogiad wastad yn digwydd yn unol â'r anghenion a nodwyd ar gyfer y cleient, o ran yr amcanion sydd wedi'u gosod ar ei cyfer. Byddwn yn cynnig y gymysgedd hon o gefnogaeth i'r dros 200 o gleientiaid sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth wrth fynd ymlaen.

**Taliadau Uniongyrchol Ynys Môn –** Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi parhau i gynnig Taliadau Uniongyrchol fel yr opsiwn gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd i gymryd rheolaeth o'u pecyn gofal eu hunain, a byw'r bywyd hyblyg y dymunant ei fyw. Mae gwasanaeth TU Ynys Môn wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf o 106 i 162 sy'n dangos cynnydd o 52.83% yn eu defnydd. Mae hyn hefyd wedi amlinellu arbedion sylweddol i'r awdurdod o £5.00 yr awr ar gyfartaledd am bob awr a gomisiynir o gymharu  gwasanaeth asiantaeth a gomisiynir.

- Cyfanswm gwariant Taliadau Uniongyrchol – **2018/19 £1,422,000**
- Rhagamcan o gostau'r Gwasanaeth trwy wasanaeth a gomisiynir - **£2,051,203**
- Arbedion i'r gwasanaeth trwy TU o gymharu â chomisiynu gwasanaethau - **£629,203**



**Straeon llwyddiant Taliadau Uniongyrchol –** Dros y 12 mis diwethaf mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio gyda Leonard Cheshire, Mencap Môn a sefydliadau eraill o'r trydydd sector i dreialu'r prosiect "Innovative Active Communities" (IAC) sydd wedi ei lansio yn fuan ym mis Mawrth 2019 trwy Gymru yn y Senedd. Mae'r prosiect wedi'i arwain gan ein defnyddwyr gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol sydd ag anableddau dysgu, ynghyd â'u teuluoedd, i lunio dewislen o weithgareddau cymunedol y gallant eu gwneud mewn grŵp trwy gronni adnoddau /cyllid at ei gilydd. Mae hyn yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ffurfio cydweithfeydd a chyflogi cynorthwywyr personol brwdfrydig o'u dewis i'w cefnogi i allu cael mynediad at y gweithgareddau maent yn eu dewis.

Trwy ddod â'u hadnoddau at ei gilydd, bydd yn creu llai o ddibyniaeth ar gefnogaeth 1-1 ar gyfer defnyddwyr abl, a byddant yn gallu cael at fwy o weithgareddau na'r angen a aseswyd oherwydd y byddant yn cronni eu horiau ynghyd. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd yr awdurdod lleol yn gallu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i arbed unrhyw gyllid sydd heb ei wario. Yn 2018/19 rydym wedi hawlio'n ôl gwerth dros **£40,000** o gyllid oedd heb ei wario trwy fonitro'r cyfrifon TU yn ofalus.

Trwy gronni adnoddau ynghyd mewn ffordd greadigol, mae Taliadau Uniongyrchol hefyd wedi galluogi i grŵp o gleientiaid anabledd dysgu sy'n byw gyda'u rhieni yn y gymuned ar hyn o bryd, i arbed ffracsiwn o'u cyllid wythnosol a chael seibiant gofal ysbaid pwrpasol gyda'u cynorthwywyr personol.

## PLANT A THEULUOEDD

**Cronfa Dydd Gŵyl Dewi –** pwrpas y gronfa yw cefnogi pobl ifanc sydd yng ngofal yr awdurdod lleol neu sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol i gael mynediad at gyfleoedd a fydd yn eu harwain at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Mae'r arian hwn yn mynd yn uniongyrchol i'r bobl ifanc sydd /a fu mewn gofal, a gellir ei ddefnyddio fel ffordd o hybu annibyniaeth, datblygiad ac i ddod yn eu blaenau yn gyffredinol. Mae'r arian wedi cael ei wario ar addysg; cyflogaeth; iechyd a llesiant; tai a mynediad at gyngor a chymorth parhaus. Yn lleol, mae nifer o'n pobl ifanc wedi defnyddio'r arian ar wersi gyrru ac ar ffioedd cyrsiau. Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn rhagor o gyllid ar gyfer 2019-20.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019/20

- Sicrhau bod y ddarpariaeth ddydd yn y dyfodol yn rhoi cyfleoedd i unigolion sydd ag anabledd dysgu gyflawni eu potensial a chwarae rhan actif yn eu cymunedau.

### Mesur Safon Ansawdd 4:

- **85%** o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ymateb yn bositif i'r cwestiwn, "Wyt ti'n teimlo bod y gefnogaeth rwyt yn ei derbyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dy helpu i wneud y pethau sy'n bwysig i ti?"

# Safon Ansawdd 5

**Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel ac i gynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach**

## OEDOLION

Defnyddiwyd elfennau refeniw a chyfalaf y Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn 2018/19 ar Ynys Môn i yrru a galluogi gweithio'n integredig ar draws yr holl grwpiau cleient rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol, wrth gefnogi pobl i aros yn annibynnol. Rydym wedi bwrw ymlaen â phrosiectau penodol yn y meysydd hyn: Dementia, Anabledd Dysgu, Awtistiaeth a phlant mewn gofal ar Ynys Môn.

*Mae cynlluniau lleol yn sicrhau bod y gronfa ICF yn ein helpu i gyflawni amryw o egwyddorion a nodau penodol, yn cynnwys:*

*Integreiddio – gwasanaeth Dementia estynedig Garreglwyd, "Môn Enhanced Care" (MEC) – sy'n osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.*

*Ataliaeth – Mae'r prosiectau a gefnogir yn cynnwys: gwelyau Camu i Fyny Camu i Lawr mewn cartrefi gofal a Thai Gofal Ychwanegol, y model atal a datblygu ar gyfer Anableddau Dysgu, Night Owls. Fflat symud ymlaen ar gyfer Anableddau Dysgu yn Llawr y Dref.*

*Gwerth Cymdeithasol – mae prosiectau'n cynnwys Cydlynu Asedau Lleol, Un Pwynt Mynediad trydydd sector, Swyddfeydd Gofalwyr yn Ysbyty Gwynedd.*

Un prosiect a gefnogwyd yn benodol yn 2018/19 oedd datblygu ymhellach y gwasanaeth **Shared Lives** sydd eisoes ar gael yn Ynys Môn. Yn ei ffurf newydd mae'r cynllun yn anelu at gynnwys y rheini sydd â dementia trwy edrych ar recriwtio mwy o alluogwyr Shared Lives i ddarparu cefnogaeth ddementia i deuluoedd yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach nag mewn lleoliad gofal preswyl neu ysbyty.

Disgwylir y bydd y gwasanaeth newydd yn gwbl weithredol yn 2019, a bydd ar gyfer pobl hŷn sydd â dementia cynnar, gan roi'r cyfle i unigolion dderbyn cefnogaeth gyda'r gofalwr a gyfatebwyd iddynt neu i ymweld â nhw'n rheolaidd am gefnogaeth ddydd neu ofal ysbaid ar eu cyfer hwy a'u teuluoedd.

## PLANT A THEULUOEDD

**Tîm o Amgylch y Teulu (TAT) a Teuluoedd yn Gyntaf – Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru:**

Mae'r Tîm TAT wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod 2018/19. Mae TAT yn chwarae rhan bwysig iawn yn narpariaeth gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a'u teuluoedd ar Ynys Môn. Mae TAT yn rhan o **Wasanaeth Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar** ehangach sy'n cynnwys chwaer-dîm o'r enw y **Gwasanaeth Camu Ymlaen** sy'n cynnwys dau Weithiwr Cymdeithasol, Gweithiwr Camddefnyddio Sylweddau, Swyddog Llesiant a Chynhwysiad a Gweithiwr Perthnasau Iach sy'n darparu gwasanaethau i deuluoedd sydd wedi cael eu camu i lawr o ymyraethau statudol. Maent hefyd yn gallu darparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar arbenigol yn y meysydd hynny sy'n cynorthwyo'r TAT ac yn lleihau'r angen i uwch-gyfeirio achosion am ymyrraeth gwaith cymdeithasol. Mae'r tîm o amgylch y teulu wedi bod yn llwyddiannus wrth sefydlu model o ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac mae'r holl aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant ar y dulliau hynny o gyfathrebu, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gwaith gyda theuluoedd sy'n hwyluso newid a chanlyniadau positif.

**Er enghraifft / Astudiaeth achos 1:** Cafodd Teulu A eu cyfeirio gan yr ysgol gynradd oherwydd pryderon oedd ganddynt am lesiant emosiynol a phresenoldeb Plentyn A. Roedd y teulu eisiau bod yn siŵr y byddai'r plentyn yn cael ei gefnogi trwy'r newid o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Fe wnaeth y TAT gydlynu cyfarfod teuluol a datblygu cynllun teulu a oedd yn cynnwys y teulu, y plentyn ac asiantaethau megis yr ysgol, Therapydd Teulu / Therapydd Chwarae NSPCC, Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Adran Dai yr Awdurdod Lleol, Cymdeithas Tai a'r Swyddog Lles Addysg.

Nid oes ar Blentyn A angen cefnogaeth bellach gan ei fod wedi setlo'n llwyddiannus yn yr ysgol uwchradd ac mae'n defnyddio strategaethau ymdopi y mae wedi eu dysgu er mwyn delio ag ymdopi yn y dyfodol agos. Mae Plentyn A wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol uwchradd, sy'n cael gwared ar yr angen i asiantaethau ymyrryd ac yn gwella presenoldeb, hyder a llesiant emosiynol y plentyn.

**Mae'r tîm wedi derbyn 204 o gyfeiriadau yn ystod 2018/2019, cynnydd o'r 146 a dderbyniwyd yn 2017/2018 a'r 165 a dderbyniwyd yn 2016/2017**

**Tîm o Amgylch y Teulu (Teuluoedd yn Gyntaf):**
Mae gan TAT rôl bwysig i'w chwarae hefyd wrth ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar i blant a'u teuluoedd ar Ynys Môn. Mae'r tîm wedi derbyn 204 o gyfeiriadau yn ystod 2018/19, cynnydd o'r 146 a dderbyniwyd yn 2017/2018 a'r 165 a dderbyniwyd yn 2016/2017. Maent yn gallu darparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar arbenigol yn y meysydd hynny sy'n cynorthwyo'r TAT ac yn lleihau'r angen i uwch-gyfeirio achosion am ymyrraeth gwaith cymdeithasol.

Mae ein **Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** wedi gweithio gyda chyfanswm o 50 teulu yn ystod 2018/19. Yn hanesyddol roedd y gwasanaeth yn cael ei rannu rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag ym mis Ebrill 2019 bydd y grŵp presennol o staff yn symud i'r swyddfeydd yn Llangefni ac yn cael eu defnyddio'n llwyr gan adran plant a theuluoedd Ynys Môn yn unig. Roedd y gwasanaeth IFSS wedi cynnal ail werthusiad o'r gwasanaeth ac roedd hynny wedi arwain ein penderfyniad i newid y trefniadau hyn. Mae'r gwerthusiad hefyd wedi cadarnhau y gellid defnyddio'r model IFSS yn y meysydd trais domestig ac anhwylderau pryder cyffredin, gan ehangu'r meini prawf o weithio gyda theuluoedd lle mai camddefnyddio sylweddau sydd wedi'i adnabod fel y prif ffactor risg.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019/20

- **Shared Lives –** Bydd rôl y Cydlynydd yn canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi galluogwyr, datblygu adnoddau hyfforddiant sy'n ymgorffori egwyddorion gofal dementia a chefnogaeth person-ganolog, ac ar ddarparu mentora a chefnogaeth.
- **Cefnogaeth ar gyfer Gordewdra –** byddwn yn gweithio i hyrwyddo plant a theuluoedd iach.

**Mesur Safon Ansawdd 5:**

- Mae **99.6%** o ofalwyr oedolion wedi cael cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion hwy eu hunain
- Roedd **94.44%** o ofalwyr oedolion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn y 6 mis diwethaf, ydych chi'n teimlo eich bod wedi bod yn rhan neu fod eich barn wedi'i gymryd i ystyriaeth cymaint ag oeddech eisiau, mewn trafodaethau am y gefnogaeth a ddarperir i'r person rydych yn gofalu amdano?"



# Safon Ansawdd 6

**Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.**

## OEDOLION

Mae'r fflatiau a ddatblygwyd yn Llawr y Dref, Llangefni wedi rhoi cyfle i unigolion ag **anableddau dysgu** gael mwy o annibyniaeth drwy fyw mewn fflat asesu gyda chymorth wedi'i deilwra am ychydig o wythnosau neu fisoedd er mwyn rhoi cefnogaeth iddynt i gyflawni eu nod o fyw'n annibynnol.

Yn 2018, mewn partneriaeth â Clwyd Alyn, agorwyd **Hafan Cefni,** cyfleuster Gofal Ychwanegol pwrpasol, gyda 63 o unedau, yn agos i ganol tref Llangefni, gyda chyfleusterau ychwanegol ar y safle sydd yn hygyrch i'r gymuned leol. Mae manteision byw mewn cyfleuster Gofal Ychwanegol yn glir – ac yn barod mae pobl yn dweud fod eu lefelau annibyniaeth, iechyd a llesiant wedi gwella.

### Iechyd Meddwl a Cham-drin Sylweddau

Gweler isod rai ystadegau ynghylch unigolion sydd â phroblem iechyd meddwl:

- Derbyniwyd cyfartaledd o 270-280 y mis o gyfeiriadau'n ymwneud â salwch meddwl oedolion yn Ynys Môn (3,315 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2018).
- 145-155 o gyfeiriadau'r mis ar gyfer plant a phobl ifanc ar Ynys Môn (1,774 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2018). Mae hyn 2% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
- Ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ymhlith yr holl blant sydd ag unrhyw gynllun statudol, mae iechyd meddwl rhiant yn un o'r rhesymau dros eu cyfeirio yn bron 1 o bob 4 achos (31% ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) ac mae 12% o blant sydd â chynlluniau statudol yn derbyn triniaeth am salwch meddwl.
- Yn Cefnogi Pobl, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Medi 2019, mae 69% o gyfeiriadau'n nodi fod gan y person anghenion iechyd meddwl. Ar gyfer unigolion 55+ oed, nodwyd fod gan 13% anghenion iechyd meddwl. Ymysg y rhai â phroblemau iechyd meddwl (Ebrill-Medi), allan o 348 o gyfeiriadau, roedd 13% (45) ag anghenion uchel, 49% (170) ag anghenion canolig a 38% (133) ag anghenion isel.
- Ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ymysg yr holl deuluoedd lle mae gan blant gynllun statudol, mae cam-drin sylweddau/alcohol yn un o'r rhesymau dros gyfeirio tua thraean ohonynt (51% ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) a nodwyd fod gan 8% o'r plant ar gynlluniau statudol anghenion yn ymwneud â cham-drin sylweddau/alcohol. Yn TAT, mae tua 9% efo anghenion yn ymwneud â cham-drin sylweddau ac/neu alcohol.

Er mwyn cefnogi unigolion a theuluoedd, ariannodd Cefnogi Pobl lety a chymorth hyblyg i 947 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn 2018/19. Mae Cefnogi Pobl hefyd yn darparu 20 o unedau ar gyfer achosion cyffredinol o ddigartrefedd o dan y dull Tai yn Gyntaf (serch hynny, mae iechyd meddwl fel arfer yn angen) ac mae cynlluniau am hyd at bum uned benodol ar gyfer unigolion sydd ag iechyd meddwl fel y prif angen. Mae'r cynllun olaf hwn wedi cychwyn ac mae'n seiliedig ar fodel o waith cefnogi dwys gydag Uned Hergest er mwyn rhyddhau pobl ag anghenion iechyd meddwl dwys o'r ysbyty yn ddiogel.

Mewn perthynas ag unigolion sydd ag anghenion mwy sylweddol ac sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cam-drin Sylweddau i dderbyn gofal a thriniaeth er mwyn eu cynorthwyo i roi'r gorau i gam-drin sylweddau / alcohol, neu i ostwng eu defnydd o sylweddau/alcohol, roedd 305 o gyfeiriadau rhwng mis Mawrth a Thachwedd 2018 (sydd yn uwch na 298 rhwng Rhagfyr 2016 - Tachwedd 2017).

## GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

**Cartref Clyd Môn -** Ym mis Tachwedd 2018, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu darpariaeth Cartrefi Grŵp Bach ar yr ynys, a elwir yn Cartref Clyd Môn erbyn hyn. Cartrefi awdurdod lleol yw'r rhain lle bydd dau o blant yn byw gyda'i gilydd mewn amgylchedd 'cartrefol' ac yn byw mewn ffordd debyg i blant sy'n byw gartref h.y. mynd i'r ysgol, byw yn y gymuned, cael cymdogion a ffrindiau ayb. Mae gan y gwasanaeth gynlluniau i agor dau gartref yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, a dau arall yn 2020/21. Disgwylir y bydd tua £115,116 o arbedion yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyntaf a £435,519 o arbedion pellach yn ystod yr ail flwyddyn.

**Pecyn Gofalwyr Maeth –** Er mwyn gwella ein cynnig i ddarpar ofalwyr maeth a chynorthwyo gyda recriwtio, cytunodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor ym mis Tachwedd 2018 i gynnig pecyn mwy cystadleuol o ran lwfansau a manteision o fis Ebrill 2019, a rhagwelir y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i recriwtio gofalwyr maeth i'r Cyngor ac yn creu arbedion. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'r pecyn yn cynnig:

- Cynnydd o 10% yn y Lwfans Maethu;
- Gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor;
- Cerdyn Aelodaeth Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn yn rhad ac am ddim;
- Tocyn parcio rhad ac am ddim ar gyfer meysydd parcio'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn bartner yng **Ngwasanaethau Mabwysiadu Gogledd Cymru** ac yn ystod y flwyddyn nesaf bydd yn cymryd rhan mewn gwaith i gynyddu nifer y rhieni sy'n mabwysiadu sy'n cael eu recriwtio ledled Gogledd Cymru. Mae nifer cynyddol o blant yng ngofal yr awdurdod lleol na allant ddychwelyd at eu teuluoedd genedigol. Mae'r plant hyn yn awr angen teuluoedd parhaol, cariadus a all roi sefydlogrwydd a chyfle iddynt ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial.



### Gwasanaethau Tai

Roedd o leiaf 1,507 o ddigwyddiadau/troseddau **cam-drin domestig** yn Ynys Môn yn 2018 (tua 570 o gartrefi), serch hynny, tanamcangyfrif yw hyn gan fod cam-drin domestig yn cael ei adlewyrchu mewn troseddau eraill, megis trefn gyhoeddus a difrod troseddol. Bu cynnydd o 23% yn y cyfraddau o gymharu â 2017.

Mae'r broblem hon, sydd yn cynyddu'n gyflym, yn amlwg yng Ngwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn. Ymysg y plant sydd ag unrhyw gynllun statudol, mae tua thraean ohonynt yn cael eu cyfeirio oherwydd cam-drin domestig rhwng y rhieni.

Yn 2018/19, cyfrannodd Cefnogi Pobl dros £190k i ddarparu cymorth cysylltiedig â thai i thua 50 o unigolion a theuluoedd bregus yr wythnos, ac wrth wneud hynny, darparu ystod o wasanaethau sy'n cynnwys 5 uned o ddarpariaeth lloches, o leiaf 30 Uned o gefnogaeth Hyblyg a 14 o ymyriadau'r wythnos gan Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol.

Mewn blwyddyn, mae oddeutu 55-70 o ferched (84%) / dynion (16%) sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn derbyn cymorth gan Gorwel (yn ogystal â 43-55 o blant dibynnol ac mae tua un mewn chwech yn byw gyda'u partner).

Mae cyllid ychwanegol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Theuluoedd yn Gyntaf yn darparu 1.5 o staff ALIC. Mae Gorwel wedi adrodd bod 126 o blant a phobl ifanc yn derbyn cymorth yn ystod y flwyddyn drwy weithgareddau megis gwaith grŵp a chymorth i greu cyswllt â mentrau lleol eraill.

Mae arian gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i ni ddefnyddio dau swyddog cyswllt ysgolion, yn gweithio ar draws ysgolion Gogledd Cymru, i gynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn hyrwyddo perthnasau iach a chodi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion am faterion yn ymwneud â Thrais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

BLAENORIAETHAU 2019/20

- Parhau gyda'r gwaith o ddylunio a chynllunio cyfleuster Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.
- Cyflwyno ein Pecynnau Gofal Maeth Lefel Uwch newydd i ddenu mwy o ofalwyr maeth.
- Lansio ein Prosiect Cartrefi Clyd Môn, sydd â'r nod o ddarparu llety addas yn lleol ar gyfer plant a phobl ifanc.



**Mesur Safon Ansawdd 6:**

- Yn ystod asesiad/ailasesiad, roedd 99% yn gallu trafod eu problemau yn eu dewis iaith



# Sut ydym yn gwneud yr hyn ydym yn ei wneud

## A) Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

***'Mewn perthynas â'r Ddeddf, strategaeth gweithlu sy'n cefnogi'r ddealltwriaeth a'r gallu i weithredu'r newidiadau, rolau newydd (e.e. mewn partneriaethau ffurfiol ac ar gyfer gwasanaethau CSYM), gofynion dysgu a datblygu."***

Mae'r Uned Datblygu Gweithlu yn parhau i weinyddu grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r bartneriaeth gofal cymdeithasol ehangach ar Ynys Môn. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth gynllunio cyfleoedd datblygu ar gyfer y gweithlu a manteisir ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol cyfagos, y GIG ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r cynllun.

Nodir isod y meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir:

- Y Gweithlu Gofal Cartref er mwyn paratoi ar gyfer cofrestru a chefnogi gwybodaeth/Rôl Unigolion Cyfrifol
- Hyfforddi, datblygu a chymhwyso Rheolwyr Gofal Cymdeithasol
- Ymarfer Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- Rhaglenni cymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- Rhaglenni Ôl-gymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- Gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau cyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol
- Caniatáu i'r gweithlu gwrdd ag anghenion statudol ar gyfer cymhwyso a/neu gofrestru

Mae enghreifftiau o'r math o gynlluniau a drefnwyd yn cynnwys hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddulliau seiliedig ar gryfderau drwy fodel y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd o Adeiladu Teuluoedd Cryfach; cyflwynwyd hyfforddiant arbenigol hefyd ar Sgiliau Llys ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.

Yn ogystal, hyrwyddodd a threfnodd yr Uned Datblygu Gweithlu nifer o sesiynau rhanbarthol a lleol er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i sicrhau bod ein rheolwyr yn cael gwybod am ofynion y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol ac, o ganlyniad, bod staff yn derbyn cefnogaeth i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd â'r gofynion.

Yn ogystal, nodwyd nifer o feysydd datblygu i'w blaenoriaethu a'u cynnwys yn y cynllun datblygu. Nodir enghreifftiau ohonynt isod:

| Teitl y Cwrs | Cwrs | Nifer a fynychodd |
|---|---|---|
| Dementia | Dyfarniad L2 | 21 |
| | Dyfarniad L3 | 18 |
| | Sesiwn codi ymwybyddiaeth i staff ar draws y sector gofal, gwirfoddolwyr a theuluoedd | 80 |
| Trefnwyd yr holl hyfforddiant yn unol â'r Cynllun Gweithredu Dementia a'r Fframwaith Gwaith Da | Nam ar y Synhwyrau | 25 |
| | Gofal Diwedd Oes / Lliniarol | 15 |
| | Dementia ac Anabledd Dysgu | 25 |
| | Cyfathrebu a gofal sy'n canolbwyntio ar y person wrth ddelio gydag ymddygiad y gellir ei ystyried yn heriol. | 25 |

| Teitl y Cwrs | Cwrs | Nifer a fynychodd |
|---|---|---|
| Ysbrydoli diwylliant o ofalu am unigolion sydd â dementia, wedi ei gefnogi gan y Fframwaith Gwaith Da | Ysbrydoli newid diwylliant - rhaglen hyfforddiant 3 diwrnod ar gyfer Rheolwyr Cartrefi Gofal | 15 |
| Cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Cyflwyniad i beth yw canlyniadau a sut mae trosi hynny o bapur i ymarfer, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Deall yr agwedd at ganlyniadau a sut mae canlyniadau yn cael eu rhoi mewn cynlluniau gofal a chymorth ac ymarfer. | 75 |
| Sefydlu | Cefnogi gweithrediad Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru | 20 |
| Cymwysterau Gofal | L2 Oedolion | 12 |
| | L3 Oedolion/Plant a Phobl Ifanc | 12 |
| | L4 Camu ymlaen i fod yn Rheolwr | 1 |
| | L5 Dyfarniad uwch ymarferydd | 4 |

| Teitl y Cwrs | Cwrs | Nifer a fynychodd |
|---|---|---|
| Gweithlu a Reoleiddir | Sesiynau codi ymwybyddiaeth am sut i gofrestru gofalwyr cartref erbyn 2020 a thu hwnt. Gweithdai cofrestru gofal cartref yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a rheoleiddio'r gweithlu o fewn yr amserlen a nodir. | 75 |

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor a 2 awdurdod lleol arall er mwyn cefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol, a llwyddwyd i recriwtio 2 hyfforddai gwaith cymdeithasol arall. Ar hyn o bryd, mae 2 yn astudio am B.A. mewn Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru, tra bod y myfyriwr arall yn astudio am M.A. ym Mhrifysgol Bangor.

Rydym wedi parhau i gefnogi ymarferwyr sydd newydd gymhwyso trwy eu tair blynedd gyntaf o ymarfer, gwaith sy'n cynnwys y Rhaglen Atgyfnerthu, Porth Agored. Bu i 3 aelod o staff gwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus yn ystod 2018-19.

Nodir isod fwy o wybodaeth am gyflawniadau gwaith cymdeithasol ar ôl cymhwyso:-

| Rhaglen | Nifer a gwblhaodd yn llwyddiannus yn 2018/19 |
|---|---|
| Dyfarniad Addysgu Ymarfer | 4 |
| Asesydd Budd Pennaf | 1 |
| Rhaglen Ddatblygu Rheolwyr Tîm | 2 |
| Rhaglen Ddatblygu Rheolwyr Canol | 1 |

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn parhau i gefnogi staff cymwys i ddilyn modiwlau drwy'r Rhaglen Ymarferydd Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol ac Uwch Ymarferydd mewn Gwaith Cymdeithasol.

## SGILIAU IAITH GYMRAEG

Er mwyn cefnogi'r agenda "Mwy na Geiriau", mae'r awdurdod yn gefnogol iawn o ddatblygu staff yn y maes hwn ac yn annog staff i fynychu ystod eang o gyrsiau/hyfforddiant er mwyn rhoi sylw i'w hanghenion unigol/codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd sgiliau iaith dwyieithog. Gweler y tabl isod am restr o'r cyfleoedd amrywiol a drefnwyd yn 2018-19:

| Cwrs | Nifer y Staff Gwasanaethau Cymdeithasol a fynychodd |
|---|---|
| Yr Iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr (sesiynau wythnosol) | 4 |
| Yr Iaith Gymraeg (Cymraeg yn y Gweithle) | 1 |
| Datblygu sgiliau iaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl | 2 |
| Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg / Mwy na Geiriau | 1 |

## HYFFORDDIANT DIOGELU

Rhoddwyd mwy o bwyslais ar sicrhau fod staff ar draws yr holl wasanaethau yn derbyn yr hyfforddiant diogelu perthnasol. Cynhwysir rhaglen gynlluniedig o gyrsiau Diogelu Sylfaenol a Chyffredinol yn y cynllun Datblygu Blynyddol sydd ar gael i'r holl staff gofal (Awdurdod Lleol/Sector Breifat/Gwirfoddol). Nodir manylion presenoldeb isod. Yn ogystal, trefnwyd cyrsiau penodol i sicrhau fod sgiliau'r gweithlu'n cael eu huwchraddio mewn meysydd arbenigol. Gweler y manylion isod:



| Maes Diogelu | Nifer Fynychodd |
|---|---|
| Diogelu ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol | 23 |
| Diogelu Cyffredinol (diwrnod cyfan) | 99 |
| Diogelu Sylfaenol (hanner diwrnod) | 8 |
| Beth? Pam? Sut? Hyfforddiant Cofnodi ac Adrodd | 48 |
| Hyfforddiant Ymchwilio ar y Cyd | 6 |

### E-Ddysgu

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddefnyddio E-Ddysgu fel dull cyfunol o ddysgu. Mae amrywiaeth o raglenni ar bob lefel ar gael i staff eu cwblhau fel rhan o'u Datblygiad Personol ac mae modd cael mynediad atynt unrhyw bryd ac o unrhyw le. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i ddatblygu meysydd allweddol e.e. Diogelu Sylfaenol, Hylendid Bwyd, Gwybodaeth am Iechyd, Caethwasiaeth Fodern ac Ymwybyddiaeth Seibr.

Mae'r tabl isod yn amlinellu rhai o'r modiwlau a gwblhawyd gan staff Gofal Cymdeithasol:

| Modiwl | Nifer a gwblhawyd | Canran |
|---|---|---|
| Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 224 | 37% |
| Caethwasiaeth Fodern | 189 | 31% |
| GDPR | 196 | 33% |
| Offer Sgrin Arddangos (DSE) | 174 | 29% |

## B) Ein Hadnoddau Ariannol a sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor o ganlyniad i bwysau ariannol parhaus ac estynedig; mae'r cyllid a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru (LlC) wedi gostwng o £101m yn 2013/14 i £95.8m yn 2019/20. Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, mae'r Cyngor wedi gwneud dros £20m o doriadau i'r gyllideb yn ystod yr un cyfnod. Roedd y sefyllfa diwedd blwyddyn yn dangos gorwariant o £3,001k yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018/19.

Roedd gorwariant o £1,830k yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn bennaf oherwydd cynnydd pellach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal - ar 31/03/2019, roeddem yn gofalu am 149 o blant sy'n derbyn gofal, cynnydd o 4.2% o gymharu â 143 yn 31/03/2018. Gall un lleoliad all sirol gostio hyd at £250k y flwyddyn. Dyrannwyd £1.39m o gyllid ychwanegol i gyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer 2019/20 er mwyn cwrdd â'r pwysau o ganlyniad i gynnydd yn nifer y plant yn ein gofal. Yn ogystal, mae'r arian a roddwyd i'r Gwasanaeth rhwng 2016/17 a 2018/19 i sefydlu tîm Trothwy Gofal, gyda'r bwriad o leihau nifer y plant a roddir mewn gofal, wedi cael ei ychwanegu'n barhaol i gyllideb 2019/20.

Roedd gorwariant o £1,171k yn y Gwasanaethau Oedolion yn 2018/19, yn bennaf oherwydd (i) ffioedd uwch o ganlyniad i gynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a chyfraddau pensiwn a (ii) cynnydd yn y galw am Wasanaethau. Rhoddwyd cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Oedolion drwy grant o £670k gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i gwrdd â'r pwysau hwn yn 2019/20. Sefydlwyd cronfa wrth gefn ychwanegol o £277k ar gyfer 2019/20 er mwyn cwrdd â phwysau yn sgil galw ychwanegol am Wasanaethau.

Serch hynny, mae'r ddau Wasanaeth yn cydnabod y sefyllfa bresennol o gynni ariannol ac yn parhau i drawsnewid gwasanaethau a rheoli galw, gyda'r Gwasanaethau Oedolion yn cyfrannu £350k o arbedion yn 2018/19, a chytunwyd ar arbedion pellach o £586k yn 2019/20. Bydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd yn edrych ar leihau eu gorwariant yn 2019/20 drwy gyflwyno Tai Grŵp Bach ar yr ynys, gyda'r bwriad o leihau nifer y plant a leolir yn all sirol.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod cyllideb a chynllunio cyllideb effeithiol a reolir yn dda, ac mae aelodau etholedig yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen gynllunio gylchol, ac yn craffu ar osod a monitro cyllidebau.

Mae amcangyfrif newidiadau yn y dyfodol yn her, oherwydd diffyg gwybodaeth gywir am setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol, ond mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canol yn rhagweld y gallai fod angen gwneud hyd at £6.72m o doriadau ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf, rhwng 2020/21 a 2022/23.



Mae'r tabl isod yn amlinellu cyfrifon ariannol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018/19:

| | Cyllideb £ | Gwirioneddol £ | Amrywiant £ |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** | 8,727,410 | 10,557,202 | 1,829,792 |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 7,095,640 | 7,447,693 | 352,053 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 1,720,010 | 2,055,527 | 335,517 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 6,582,830 | 7,103,668 | 520,838 |
| IECHYD MEDDWL | 1,931,410 | 2,213,940 | 282,530 |
| GWASANAETHAU CEFNOGI | 1,232,080 | 1,175,614 | -56,466 |
| **UNED DDARPARU** (GOFAL MÔN / GWASANAETHAU ERAILL) | 6,166,900 | 5,910,635 | -256,265 |
| GWASANAETHAU ERAILL | 59,692 | 52,542 | -7,150 |
| **CYFANSWM** | **33,515,972** | **36,516,821** | **3,000,849** |



# C) Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Mae llywodraethiant wleidyddol yn y Cyngor yn parhau i fod yn gadarn. Mae hyn wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac i graffu ar gynnydd yn gyson.

**Y Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol ac mae'r aelodau'n cynnwys yr Arweinydd ac 8 Aelod Portffolio. Mae'r Arweinydd yn parhau i fod yn Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac wedi goruchwylio ein gwelliannau dros y 2 flynedd ddiwethaf, o safbwynt gwleidyddol. Dangosir effeithlonrwydd cynyddol y Pwyllgor wrth iddo wneud penderfyniadau anodd, megis y Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn (er enghraifft, mae gwaith adeiladu Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni wedi cael ei gwblhau ac mae'r cyfleuster bron yn llawn). Yn dilyn arfarnu safleoedd, penderfynwyd adeiladu darpariaeth Gofal Ychwanegol arall yn ward Seiriol a neilltuo adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd er mwyn cynorthwyo i reoli galw.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae gwaith y Panel o Aelodau Etholedig a sefydlwyd yn dilyn etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau a gwelwyd gwelliannau'n cael eu gwireddu mewn cyfnod byr o amser. Daw'r aelodau o'r gwahanol grwpiau gwleidyddol, ac mae wedi rhoi cyfle iddynt wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o waith y Gwasanaeth, gan arwain at graffu'n well.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cydnabuwyd hyn fel cryfder mewn adroddiadau arolygu allanol i ni adeiladu arnynt. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Oedolion yn parhau i fod yn rhan weithredol o agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y caiff y Gwasanaethau Cymdeithasol eu darparu trwy gydweithredu.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle trwy Rhaglen Gydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan y Gydweithredfa raglen wella gynhwysfawr yn ei lle trwy gydweithio, gan ganolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gellir gweld tystiolaeth bellach o'r ethos partneriaeth hwn trwy gydweithio rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a BIPBC drwy'r Bwrdd Cyflawni Integredig. Pwrpas y Bwrdd Cyflawni Integredig yw sicrhau fod anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn cael eu gwasanaethu'n well wrth i wasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol gael eu hintegreiddio'n well. Model Môn yw cangen weithredol y Bwrdd Cyflawni Integredig, gyda chyfrifoldeb dros gyflwyno'r Rhaglen Waith fanwl.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedir yn benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn a phobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Gwariwyd y Gronfa Gofal Integredig ar ddatblygu Garreglwyd fel cartref arbenigol sy'n cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda dementia a gwasanaethau Gofal Uwch Môn a Night Owls o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae bwrdd partneriaeth ar y cyd i Wynedd a Môn wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys prif sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth. Defnyddiwyd yr asesiad a gwblhawyd gan y Bwrdd yn 2017/18 gan bartneriaid i ddrafftio'r cynllun llesiant a fabwysiadwyd yn ystod 2018/19. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cael ei weithredu.

Rydym yn parhau i ymgynghori'n agos â'r Trydydd Sector a gweithio mewn partneriaeth trwy'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol sy'n cwrdd bob chwarter. Rydym yn cydnabod rôl y Trydydd Sector yn lleol fel partner strategol ac rydym wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi hyn, er enghraifft, rôl Medrwn Môn ar grŵp gweithredol Model Môn, Bwrdd OPUS (prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd) a'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu grŵp partneriaeth y trydydd sector sy'n gyfrifol am gyflawni amcanion y Cyngor a sicrhau y cydymffurfir â thechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid.

**Perfformiad**

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgorffori fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mabwysiadwyd y fframwaith hwn i sicrhau bod meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor, ac y gallai gwaith monitro adnabod materion cyn iddynt danberfformio – rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion.

Mae'r arfer hwn wedi gweld gwelliannau mewn nifer o ddangosyddion gwasanaethau cymdeithasol, gyda llwyddiant arbennig yn cael ei weld ym mherfformiad dangosyddion gofal a ddarperir i Oedolion. Mae Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi gwella hefyd a rhagwelir y bydd ffocws parhaus drwy gyfrwng y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn gwella perfformiad a chysondeb ymarfer ymhellach, a oedd yn flaenoriaethau ar gyfer 2018-19.



Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HB

Cysylltwch â ni ar:
Ffôn: 01248 751887
E-bost: EmmaEdwards@ynysmon.gov.uk

# ASTUDIAETH ACHOS


ASTUDIAETH ACHOS 1: Cydlynu Asedau Lleol Ynys Môn i

ASTUDIAETH ACHOS 2: Cronfa Gofal Integredig (ICF) 2018/19 iv

ASTUDIAETH ACHOS 3: Trosglwyddo / Gwasanaethau Arbenigol Plant vi

ASTUDIAETH ACHOS 4: Tîm o Gwmpas y Teulu vii

ASTUDIAETH ACHOS 5 x

# ASTUDIAETH ACHOS 1: Cydlynu Asedau Lleol Ynys Môn

## CRONFA GOFAL INTEGREDIG 2018/19

| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r Prosiect:** | Model newydd o weithio gyda chymunedau yw Cydlynu Asedau Lleol (CALl) ac fe'i datblygwyd ar Ynys Môn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Model ataliol ydyw, ond erbyn hyn gwelwyd ei fod o fudd i unigolion sydd efallai'n derbyn gwasanaethau statudol yn barod. Mae Cydlynwyr Asedau Lleol yn gweithio gydag unigolion a grwpiau i ddatblygu a defnyddio rhwydweithiau lleol i hyrwyddo atebion lleol i anghenion lleol. |
| **Nod y Prosiect:** | • Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yn ein cymunedau.<br>• Hyrwyddo byw'n annibynnol; dewis pobl a'u rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.<br>• Hyrwyddo ffordd o fyw iachach a lleihau anghyfartaledd iechyd.<br>• Datblygu rhagnodi cymdeithasol – cryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, gwirfoddol a gwasanaethau'r awdurdod lleol. |
| **Canlyniadau'r Prosiect:** | • Mae pobl yn fwy gwybodus ac yn gwybod lle y gallant gael cyngor a chymorth ynghylch gweithgareddau fyddai'n helpu i atal neu leihau arwahanrwydd ac unigedd a hyrwyddo iechyd a llesiant.<br>• Mae mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'n sy'n helpu i hyrwyddo annibyniaeth a gwytnwch, ac yn lleihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen. |
| **Ynglŷn â'r Person:**<br>*Beth yw eu hoedran? Ydyn nhw'n byw ar eu pen eu hunain? Oes ganddynt deulu/ffrindiau gerllaw? Sut mae eu lles cyffredinol?* | Cyfeiriwyd Brian i wasanaeth Cydlynu Asedau Lleol Caergybi drwy gydweithiwr CALl (Gwyneth) a oedd eisoes yn adnabod Brian.<br><br>Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn ei gartref. Yn ystod ein sgwrs, siaradodd am ei wraig a sut yr oedd wedi gofalu amdani am dros 30 mlynedd, tan ei marwolaeth ym mis Ionawr 2017. Dywedodd ei fod yn unig iawn, nad oedd ganddo neb i droi atynt ac nad oedd ganddo ffrindiau na theulu yn byw'n lleol – roeddent yn byw yn Lloegr ac yn Japan. Mae gan Brian fab, ond am reswm nad yw'n hysbys i Brian, roedd y mab wedi torri cysylltiad ag o'n llwyr.<br><br>Mae Brian yn byw mewn fflat llawr gwaelod ar stad newydd, ac ers symud yno bedair blynedd yn ôl, roedd o a'i wraig wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y plant lleol. Byddent yn taflu cerrig at ei fan, yn camu allan o flaen y fan, canu cloch y drws, rhoi eu dwylo drwy ffenestri'r fflat er mwyn gafael mewn pethau. Digwyddodd y digwyddiad penodol hwn pan oedd ei wraig yn ei gwely'n sâl. Cafodd Brian ei gam-drin yn eiriol hefyd pan siaradodd â'r rhieni am ymddygiad eu plant tuag ato a'i wraig. Tynnwyd sylw'r Heddlu a'r landlordiaid at yr ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| **Beth oedd y sefyllfa:**<br>*Disgrifiwch sut y daeth y person i gysylltiad â'r gwasanaeth yr ydych yn ysgrifennu amdano. Os yw'n berson hyn – pa her neu broblem oeddent yn ei wynebu a pha effaith oedd hynny'n ei gael ar eu bywyd* | Cyfeiriwyd Brian at wasanaeth Cydlynu Asedau Lleol Caergybi drwy gydweithiwr (Gwyneth) a oedd eisoes yn adnabod Brian.<br><br>Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn ei gartref. Yn ystod ein sgwrs, siaradodd am ei wraig a sut yr oedd wedi gofalu amdani am dros 30 mlynedd, tan ei marwolaeth ym mis Ionawr 2017. Dywedodd ei fod yn unig iawn, nad oedd ganddo neb i droi atynt ac nad oedd ganddo ffrindiau na theulu yn byw'n lleol – roeddent yn byw yn Lloegr ac yn Japan. |

**Datganiad o effaith Sut wnaeth y gwasanaeth wneud gwahaniaeth?**
*Disgrifiwch pa gamau gymerodd y gweithiwr achos/gwirfoddolwr i roi cefnogaeth*

1. **Mawrth 2018 -** Roedd Brian yn dechrau canolbwyntio a siarad am drawma'r misoedd blaenorol, colli ei wraig, bod yn ddioddefwr trosedd a chael ei gynnwys mewn asesiad iechyd meddwl nad oedd o'n ei groesawu. Gyda'n gilydd, blaenoriaethwyd sut yr oedd Brian eisiau rheoli a delio gyda'r hyn yr oedd o'n ystyried yn ddigwyddiadau trawmatig.

2. Cysylltwyd â'r Meddyg Teulu a sicrhawyd fod Brian yn glir ynghylch y feddyginiaeth gywir yr oedd o fod i'w gymryd.

3. Cefnogwyd Brian i fynychu sesiynau cwnsela profedigaeth CRUSE dros gyfnod o 6 wythnos.

4. Cefnogwyd a rhoddwyd cyngor i Brian am faterion ariannol – biliau cyfleustodau, contractau ffôn, apwyntiadau ysbyty ac apwyntiadau meddyg teulu a fethwyd.

5. **Ebrill 2018 -** cyflwynwyd Brian i'r Men's Shed. Trobwynt i Brian oedd pan wnaeth ffrindiau â Richard, oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar hefyd. Byddai'r ddau ddyn yn cyfarfod yn y sied bron bob dydd i wneud pa bynnag waith oedd angen ei wneud – casglu sbwriel, adeiladu gwlâu blodau a chreu bwrdd bwydo adar oedd yn golygu gwneud gwaith manwl.

6. Cyflwynwyd Brian i wirfoddolwyr a chleientiaid y clwb cinio lleol.

7. Crëwyd ymyrraeth rhwng Brian a dyn lleol a oedd yn gallu helpu i sefydlu system ddiogelwch y cartref, a darparu teledu cylch cyfyng 24 awr yn ei gartref.

8. Gweithiwyd mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Dai Brian a'r Heddlu i gynnal digwyddiad cymunedol. Sesiwn galw i mewn oedd hon yn rhoi cyfle i'r tenantiaid (teuluoedd a phlant ifanc yn bennaf) alw heibio'r ganolfan gymunedol am baned o de, cwrdd â'u cymdogion a siarad gyda swyddog cyswllt y Gymdeithas Dai a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) ynghylch unrhyw bryderon oedd ganddynt am y stad. Deilliodd budd cymunedol ehangach o hyn o ran diogelwch cymunedol.

9. Rhoddwyd cefnogaeth i Brian gael sgan MRI (ar yr asgwrn cefn) a sgan ar yr ymennydd ac i dderbyn y canlyniadau.

10. Rhoddwyd cefnogaeth i Brian fynychu sesiynau hyfforddiant a llesiant.

**Pa ganlyniadau a gyflawnwyd?**
*Beth oedd y canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth?*
*Pa effaith gafodd yr ymyraethau?*

- O fewn tri mis, mae Brian yn mynychu dau grŵp cymunedol – Clwb Cinio a Men's Shed. Mae o'n cymryd camau pendant i ddatblygu hen sgiliau gyda dynion eraill ac yn helpu eraill i ddysgu.
- Naw mis yn ddiweddarach, mae gorbryder Brian wedi lleihau'n sylweddol, ac nid yw angen cyswllt dwys gyda'r Cydlynydd Asedau Lleol erbyn hyn. Fodd bynnag, rydym yn cadw mewn cysylltiad ag o yn wythnosol drwy'r Men's Shed a'r Clwb Cinio.
- Cysylltwyd â Meddyg Teulu Brian er mwyn adolygu ei gyflwr Diabetes a'r cyflwr hirdymor ar ei asgwrn cefn.
- Yn ogystal â'r uchod, cysylltwyd ag arbenigwr Diabetes a gwasanaethau Niwroleg.

**Pa ganlyniadau a gyflawnwyd?**
*Beth oedd y canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth? Pa effaith gafodd yr ymyraethau?*

- Mae Brian yn dilyn cwrs TG i ddysgu sut i ddefnyddio Skype, Facebook a sut i siopa ar-lein – erbyn hyn mae o'n cysylltu â'i deulu yn Swydd Efrog a Japan.
- Cymerodd Brian ran mewn tair Rhaglen Cleifion Arbenigol – Rheoli Diabetes, Bwyd Doeth a Diabetes a Rheoli Poen Cronig. Bu iddo elwa drwy reoli ei gyflwr diabetes a'i boen cronig yn well drwy gymryd rhan mewn rhaglen ymarfer corff nad yw'n gyfyngedig.
- Cysylltu â'r CPN a oedd yn gyfrifol am gynnal yr asesiad iechyd meddwl cychwynnol a darparwyd gwybodaeth ddefnyddiol i ddangos gweithgareddau dyddiol Brian a'i lefelau gweithredu: e.e. roedd yn ymwneud â phrosiectau gwaith llaw manwl iawn yn y Men's Shed.
- Cyflawnwyd trosedd arall yn fflat Brian – y tro hwn casglwyd tystiolaeth ar gamerâu cylch cyfyng a chadarnhawyd mai plant lleol oedd yn gyfrifol – ymatebodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gyflym i hyn a rhoddwyd sylw i'r mater.
- Roedd y Seiciatrydd Ymgynghorol yn cydnabod rhwystredigaeth ac ansicrwydd Brian ynghylch pam y bu'n rhaid iddo gael ei asesu. Gofynnodd gwestiynau i'r Cydlynydd Asedau Lleol a Brian am y dulliau yr oeddent wedi eu defnyddio yn ystod y broses anodd hon, a gwnaeth sylwadau am eu llwyddiant, ac am werth ymyrraeth y Cydlynydd Asedau Lleol.
- Nid oedd canlyniadau sgan ar yr ymennydd yn dangos unrhyw arwyddion o ddementia na nam gwybyddol.

**Dyfyniadau/Adborth**
*Rhowch ddyfyniad uniongyrchol gan y defnyddiwr gwasanaeth. Beth oedd ganddynt i'w ddweud am y gwasanaeth a gafwyd a'r effaith a gafodd arnynt?*

Mae Brian wedi rhoi caniatâd i ni adrodd ei stori, fel y dywedodd –
*"y mwyaf o bobl sy'n gwybod beth yr ydw i wedi ei ddioddef, y gorau". "Wedyn, efallai y byddai pobl yn cymryd mwy o amser i wrando ac i ddeall beth mae pobl yn mynd drwyddo pan maent yn teimlo'n ynysig ac yn unig ar ôl colli rhywun agos". "Heb gymorth y Cydlynydd Asedau Lleol, dydw i wir ddim yn gwybod lle fyddwn i heddiw".*

# ASTUDIAETH ACHOS 2:

## CRONFA GOFAL INTEGREDIG (ICF) 2018/19

| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r Prosiect:** | Mae'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn cefnogi gofalwyr di-dâl mewn ysbytai a'r gymuned; rydym yn eu cyfeirio, cynghori a'u hatgyfeirio at asiantaethau addas a all gynnig cefnogaeth iddynt. |
| **Amcanion y Prosiect:** | Asesu a chyfeirio gofalwyr at asiantaethau addas er mwyn lleihau'r straen arnynt. |
| **Canlyniadau'r Prosiect:** | Mae gofalwyr yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth, yn cael gwybodaeth ac yn cael eu haddysgu am y cymorth sydd ar gael iddynt o ran budd-daliadau, grwpiau cymunedol ayb. |
| **Ynglŷn â'r Person:** *Beth yw eu hoedran? Ydyn nhw'n byw ar eu pen eu hunain? Oes ganddynt deulu/ffrindiau gerllaw? Sut mae eu lles cyffredinol?* | Yn yr achos hwn, y person yw prif ofalwr ei brawd, sydd yn dioddef o ganser. Mae'r gofalwr yn 56 oed ac yn briod ac mae ei merch, mab yng nghyfraith a wyres yn byw gyda hi. Dywed yr ofalwraig fod ei theulu yn gefnogol. Fodd bynnag, dywedodd ei bod dan lawer o bwysau gan fod iechyd ei thad a'i brawd wedi dirywio. |
| **Beth oedd y sefyllfa:** *Disgrifiwch sut y daeth y person i gysylltiad â'r gwasanaeth yr ydych yn ysgrifennu amdano. Os yw'n berson hyn – pa her neu broblem oeddent yn ei wynebu a pha effaith oedd hynny'n ei gael ar eu bywyd* | Yn wreiddiol, cyfeiriwyd chwaer yr ofalwraig at y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gan Nyrs Staff ar ward Ogwen, gan mai hi oedd prif ofalwraig eu tad oedrannus a gafodd ei dderbyn i'r ysbyty ar ôl disgyn. Bryd hynny, gofynnodd yr ofalwraig am gael ei chyfeirio hefyd am ei bod hithau'n ei chael yn anodd ymdopi â'i rôl fel gofalwr. Roedd yr ofalwraig a'i theulu'n wynebu nifer o heriau, gan gynnwys bregusrwydd y tad, problemau llety, problemau ariannol a chanser yr ysgyfaint lliniarol ei brawd a oedd wedi creu'r angen am ofalwr. Awgrymwyd atebion posib a'u rhoi ar waith, gan gynnwys rhoi cyngor ynglŷn â budd-daliadau, cyfeiriadau i asiantaethau cefnogi eraill, cymorth ariannol a chefnogaeth emosiynol. |
| **Datganiad o effaith Sut wnaeth y gwasanaeth wneud gwahaniaeth?** *Disgrifiwch pa gamau gymerodd y gweithiwr achos/gwirfoddolwr i roi cefnogaeth* | Rhoddodd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gefnogaeth i'r teulu drwy ddarparu cefnogaeth emosiynol yn seiliedig ar y materion a'r problemau yr oeddent yn eu wynebu yn ddyddiol.<br><br>Darparwyd gwybodaeth am ba fudd-daliadau oedd ar gael, yn cynnwys PIP a Lwfans Gofalwyr. Gwnaed cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.<br><br>Gwnaed ceisiadau am grantiau i'r Roy Castle Fund, MacMillan Cancer Support a chronfa ysbaid gofalwyr Gwynedd (a reolir ac a weinyddir gan y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr).<br><br>Gwnaed cais am Fathodyn Glas er mwyn hwyluso trefniadau parcio wrth deithio i ac o apwyntiadau gyda'r sawl sy'n derbyn gofal.<br><br>Gwnaed cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor. Gwnaed cais i'r cynllun WaterSure Cymru er mwyn capio/lleihau biliau dŵr. |
| **Pa ganlyniadau a gyflawnwyd?** *Beth oedd y canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth? Pa effaith gafodd yr ymyraethau?* | Bu gostyngiad sylweddol yn lefelau straen yr ofalwraig, gan fod y teulu cyfan yn derbyn cefnogaeth, a ffurfiwyd perthynas gadarnhaol rhwng y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, y gofalwr a'r ysbyty.<br><br>Roedd yr ofalwraig yn teimlo y gallai siarad yn gyfrinachol â rhywun ac y gallai ofyn am gyngor a chefnogaeth. Lleihawyd y baich ariannol ar y person oedd yn derbyn gofal o ganlyniad iddo dderbyn cymorth ariannol, yn cynnwys grantiau, budd-daliadau a gostyngiadau, a fyddai o help iddo wrth dalu biliau a chostau cyffredinol yn gysylltiedig â'r cartref. Roedd y Bathodyn Glas yn sicrhau fod yr ofalwraig yn gallu mynd â'i brawd i'w apwyntiadau er gwaetha'r ffaith fod ei allu i symud yn dirywio. |

| | |
|---|---|
| **Pa ganlyniadau a gyflawnwyd?**<br>*Beth oedd y canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth?*<br>*Pa effaith gafodd yr ymyraethau?* | Mae'r ofalwraig wedi gofyn am ofal ysbaid fydd yn rhoi amser iddi ddod ati ei hun yn emosiynol ac yn gorfforol, gan y bydd y gwaith o ofalu am ei brawd yn fwy heriol ac yn cynyddu gydag amser. |
| **Dyfyniadau/Adborth**<br>*Rhowch ddyfyniad uniongyrchol gan y defnyddiwr gwasanaeth. Beth oedd ganddynt i'w ddweud am y gwasanaeth a gafwyd a'r effaith a gafodd arnynt?* | Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y cymorth a'r gefnogaeth a roddwyd yn ystod y cyfnod anodd hwn.<br><br>*"Anhygoel. Mae'n gwybod ei gwaith tu chwith allan ac yn cael canlyniadau. Nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth. Mae hi'n dda efo'r claf a'r teulu. Fyddwn i ddim wedi gallu ymdopi heb ei help."* |

# ASTUDIAETH ACHOS 3: Trosglwyddo/Gwasanaethau Arbenigol Plant

Mae P yn byw yn Llangefni gyda'i theulu ac mae ganddi anabledd dysgu ac mae'n ddisgybl yng Nghanolfan Addysg y Bont. Cyfeiriwyd P at y Gwasanaethau Arbenigol Plant ym mis Ionawr 2018, pan oedd yn 17 oed, ar gyfer y gwasanaeth nyrsio cymunedol paediatreg Anableddau Dysgu er mwyn cefnogi'r ysgol i reoli ei hymddygiad. Nid oedd teulu P wedi gofyn am unrhyw gefnogaeth na mewnbwn gan y gwasanaethau cyn hyn.

Ym mis Mehefin 2018, fel rhan o Brosiect Trosglwyddo Partneriaeth – Y Bont – Partnership (wedi'i leoli yn yr Ysgol Arbennig), roedd yn bosib i P a'i theulu dderbyn cefnogaeth ychwanegol gan Gydlynydd Trosglwyddo'r gwasanaeth heb orfod cael cyswllt â gweithiwr cymdeithasol. Roedd modd i'r Cydlynydd Trosglwyddo weithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr proffesiynol o asiantaethau amrywiol eraill a oedd yn gweithio gyda P, er mwyn cynorthwyo i gynllunio'r Broses Drosglwyddo i'r gwasanaethau anableddau dysgu oedolion.

Roedd y tîm amlddisgyblaethol a oedd yn gweithio gyda'r teulu a'r ysgol yn cynnwys Nyrs Gwasanaethau Arbenigol Plant, Dadansoddydd Ymddygiad - Gwasanaeth Anghenion Dwys, Therapydd Iaith a Lleferydd, Asesydd Gofalwyr, Seiciatrydd Paediatreg Anableddau Dysgu, Cydlynydd Trosglwyddo ac Athrawes.

Fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion, teimlwyd y byddai'n gam gadarnhaol i P ehangu ei hystod o ddiddordebau a gweithgareddau er mwyn ei helpu i fod yn fwy annibynnol, a hefyd i gefnogi ei rhieni yn eu rôl fel gofalwyr drwy ei gwneud yn bosib iddi gael seibiant.

Ym mis Hydref 2018, cytunwyd gyda'r teulu y byddai'n briodol cyflwyno gweithiwr cymdeithasol o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant, i edrych ar y math o gefnogaeth fyddai'n helpu P ac i gefnogi'r teulu drwy'r cyfnod o drosglwyddo i'r Gwasanaethau Oedolion.

Fel rhan o Gynllun Gofal a Chymorth P, defnyddiodd y teulu Daliadau Uniongyrchol er mwyn iddi fedru cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn y gymuned ac mae hyn wedi rhoi cyfle i P ddatblygu ei hannibyniaeth a'i sgiliau cymdeithasol gyda chefnogaeth 2 gynorthwyydd personol bob wythnos.

Dyma'r tro cyntaf i'r teulu dderbyn cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol ac roedd y berthynas hon yn golygu fod y gweithiwr cymdeithasol yn gallu dod i adnabod y teulu a sicrhau fod cysylltiad yn cael ei wneud gyda'r tîm gwaith cymdeithasol yn y gwasanaeth anableddau dysgu oedolion.

Ym mis Ionawr 2019, ymwelodd y ddau weithiwr cymdeithasol â'r teulu gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y byddai'r cyswllt gyda'r gwasanaeth Anableddau Dysgu Oedolion yn golygu bod P yn derbyn gwasanaeth di-dor a bod y teulu'n hyderus y byddai modd i'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol barhau. Yn ogystal, lle'r oedd hynny'n angenrheidiol, sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo gwasanaethau iechyd yn cael ei gydlynu gan weithwyr proffesiynol a oedd yn aelodau o'r Tîm Amlddisgyblaethol gwreiddiol. Bydd y ddau weithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi P nes ei bod yn 18 oed a bydd y Cydlynydd Trawsnewid yn parhau i ymwneud â'r broses fel rhan o'r Gwasanaethau Anableddau Dysgu Oedolion, gan edrych ar weithgareddau dydd ac opsiynau eraill mewn perthynas â chyfleoedd addysg bellach.

Mae mam P wedi dweud wrth y gweithiwr cymdeithasol ei bod yn teimlo fod y Gwasanaeth Trosglwyddo wedi bod yn 'dda' a'i bod yn gwerthfawrogi'n arbennig rôl y Cydlynydd Trosglwyddo a'r Gweithiwr Cymdeithasol o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant wrth gefnogi P a'i theulu ar y pwynt hwn yn y broses drosglwyddo.

# ASTUDIAETH ACHOS 4: Tîm o Gwmpas y Teulu

### TEULU - MAM, TAD, MERCH (7), MAB (4)

**Crynodeb o sefyllfa'r teulu**
**08-05-18**

Mae gan y mab oedi yn ei leferydd a phroblemau ymddygiad sylweddol.

Mae mam adra gyda'r plant bob dydd ac yn ei chael yn anodd iawn ymdopi gyda'i mab. Bydd y mab yn sgrechian ac yn strancian am bethau dibwys.

Gwelwyd y teulu i gynnal asesiad cychwynnol ar 21/10/16 ac fe'u cyfeiriwyd i'r Tîm Therapi Iaith oherwydd yr oedi yn y lleferydd. Mae'r mab wedi bod yn mynychu lleoliad cyn-ysgol ers hynny hefyd a dywed mam fod ei leferydd wedi gwella o ganlyniad i hynny.

Mae'r ysgol wedi rhoi un gweithiwr i weithio gydag o am nad yw'n gallu canolbwyntio ond am gyfnod byr. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae ei fam wedi gweld ei ymddygiad yn mynd yn fwy a mwy heriol. Nid yw'n cysgu'n dda, mae ei leferydd wedi cymryd cam yn ôl ac mae o'n sgrechian llawer. Dywed ei fam ei fod yn gwylltio oherwydd ei rwystredigaeth.

Mae'r mab yn hoff o drefn a strwythur ac mae'n hoelio ei sylw i gyd ar deganau penodol neu raglenni cartŵn penodol ar y teledu. Mae o wrth ei fodd gyda theganau synhwyraidd. Yr unig amser y mae o'n dawel ac yn cymryd rhan mewn gweithgaredd yw pan ei fod yn y bath. Dywed mam nad yw'n gallu gweld perygl ac os nad yw'n cael ei glymu i'r gadair wthio pan fyddant yn mynd allan bydd yn rhedeg i ffwrdd neu'n rhedeg o flaen ceir.

Mae mam yn dioddef o straen a gorbryder ac yn teimlo ei bod wedi cyrraedd pen ei thennyn gyda'i mab. Mae mam yn teimlo fod ei pherthynas gyda'i phartner a'i merch dan straen oherwydd y mab. Maent yn derbyn cefnogaeth dda gan eu teulu yn lleol ond yn aml mae mam yn anfodlon rhannu ei phroblemau gyda nhw.

Mae ei chwaer yn helpu llawer gyda'r plant. Mae'r mab yn teimlo'n gyfforddus efo hi hefyd. Bu'n rhaid iddynt leihau'r amser y mae'r mab yn ei dreulio'n yr ysgol o un diwrnod am resymau ariannol.

Cyfeiriwyd y mab at y paediatregydd cymunedol ac mae'r ysgol wedi rhoi mwy o gymorth mewn lle.

Nid yw'r mab yn ymwybodol o ddiogelwch ffordd, a bydd yn rhedeg yn syth i'r ffordd. Cefnogaeth i'r teulu wneud cais i'r Adran Dai i osod giât a ffens yn y cefn er mwyn i'r mab gael chwarae'n rhydd tu allan heb redeg allan i'r ffordd. Byddai hyn yn cefnogi'r teulu heb achosi mwy o bryder i mam.

**Crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd**
**19-11-18**

- Cwblhawyd gwaith yn y cartref i gynorthwyo gydag ymddygiad y mab, ac i ddatblygu hyder mam er mwyn ei pharatoi i ddilyn y cwrs Y Blynyddoedd Rhyfeddol. Aeth mam i dri sesiwn ond nid oedd yn gallu ymrwymo ei hun oherwydd problemau gofal plant. Felly, ar ôl y grŵp, parhawyd i ddarparu'r gefnogaeth yn y cartref.
- Cefnogaeth tymor byr i'r ferch mewn perthynas â rheoli emosiynau a gwydnwch, archwilio dymuniadau a theimladau'r ferch.
- Gwybodaeth am gysylltu â'r tîm Asesu Gofalwyr ynglŷn â chefnogaeth ynghylch diogelwch.
- Rhoddwyd cefnogaeth i annog a galluogi mam i fynd â'r teulu allan. Rhoi'r hyn yr oedd mam wedi'i ddysgu ar waith a chael yr hyder i fynd â'r plant allan ac i brofi ei gallu i reoli ymddygiad ei mab ac ymdopi â'i gorbryder ei hun, a rhoi'r hyder iddi fynd â'r plant allan ar ei phen ei hun.
- Rhoi cefnogaeth i mam gael y mab allan o'i glytiau.
- Rhoi cefnogaeth i mam gyda'r ysgol a'r mab yn trosglwyddo i ysgol prif lif.

**Canlyniad cadarnhaol:**
O ganlyniad i ddatblygu hyder mam, bu gwelliant yn ei gallu i rianta ac roedd yn teimlo yn fwy hyderus ac, yn ei dro, cafodd hynny effaith gadarnhaol ar ei hiechyd meddwl. Gwelwyd bod gweithredu'r cynllun Y Blynyddoedd Rhyfeddol wedi gwella ymddygiad y mab ac wedi cynorthwyo mam i reoli ei ymddygiad.

Roedd sesiynau gyda'r ferch yn ei galluogi i archwilio ei dymuniadau ac i weithio ar reoli ei hemosiynau, a rhoi'r gallu iddi sianelu ei dicter mewn ffordd fwy cadarnhaol.

Mae'r mab wedi dod allan o'i glytiau erbyn hyn ac yn setlo'n dda yn yr ysgol.

Rhoddodd y Tîm o Gwmpas y Teulu gefnogaeth gyda materion ariannol y teulu mewn perthynas â budd-daliadau ac roeddent yn cydlynu ac yn cyfathrebu gydag asiantaethau pan oedd mam yn ei chael yn anodd gwneud hynny.

**Sylwadau'r Rhieni:**
Trawsnewidiad anhygoel o gymharu â'r amser hwn y llynedd. Dwi'n mwynhau pethau bob dydd ac yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Ni allaf ddiolch digon i'r Tîm o Gwmpas y Teulu am yr holl gefnogaeth a ddarparwyd. Byddaf yn ddiolchgar am byth.

# ASTUDIAETH ACHOS 5

Cyfeiriwyd Teulu B gan y Swyddog Lles Addysg a'r Ymwelydd Iechyd oherwydd pryderon am iechyd a lles emosiynol y plentyn ac anghenion dysgu posib o fewn yr ysgol.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r teulu yn yr ysgol a chytunwyd ar gynllun gweithredu. Roedd y cyfarfod yn cynnwys y plentyn a'r teulu a chynrychiolwyr o'r ysgol, yr Uned ABC, y Nyrs Ysgol, Therapi Iaith a Lleferydd, Therapydd Chwarae, SNAP Cymru, y Gymdeithas Dai, Swyddog Lles Addysg a'r Tîm o Gwmpas y Teulu.

Mae cyflawniadau plentyn B yn yr ysgol wedi gwella ac mae'r plentyn wedi cael ei ail integreiddio i'r dosbarth prif lif o'r Grŵp Anogaeth.